



Prifysgol Abertawe  
Swansea University

Adolygiad Gweithredol ac  
Ariannol a Datganiadau Ariannol  
**2014-15**



Prifysgol Abertawe, Parc Singleton,  
abertawe, SA2 8PP, DU

Ffôn: +44 (0)1792 205678

[www.abertawe.ac.uk](http://www.abertawe.ac.uk)

## DATGANIADAU ARIANNOL

### Cynnwys

- 02. Neges yr Is-ganghellor
- 03. Y Brifysgol a'i gwaith
- 08. Datganiad Buddion Cyhoeddus
- 10. Rheolaeth ariannol a rheoli risg
- 12. Dangosyddion perfformiad allweddol
- 15. Adroddiad ariannol
- 21. Llywodraethu corfforaethol

## NEGES YR IS-GANGHELLOR

Mae wedi bod yn flwyddyn gofiadwy.

Mae Adolygiadau Gweithredol ac Ariannol Blynyddol dilynol wedi dangos cynnydd y Brifysgol yn dilyn y polisiau 'Cyfeiriadau Strategol' uchelgeisiol a gymeradwyodd ein Cyngor yn 2004. Y dystiolaeth amlwg yn Adolygiad eleni yw bod Prifysgol Abertawe wedi gwneud cynnydd sylweddol pellach ac, yn fwy calonogol fyth, bod ei henw da yn dal i fyny â'i chyflawniadau.

Mae'r dystiolaeth hon yn cynnwys cynnydd sylweddol ceisiadau myfyrwyr, llwyddiant anhygoel ein myfyrwyr i sicrhau cyflogaeth lefel raddedig, lefelau uchel bodlonrwydd myfyrwyr, partneriaethau strategol ffyniannus gyda phrifysgolion ardderchog dramor a chyrraedd rhestr fer Gwobr Prifysgol y Flwyddyn y Times Higher Education.

Uchafbwynt y flwyddyn oedd perfformiad y Brifysgol yn yr asesiad ymchwil diweddaraf gan Gyngorau Cyllido Addysg Uwch y Deyrnas Unedig. Roedd canlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF2014) Abertawe yn rhagorol. Gan godi i rif 26 yn y safleoedd a gyhoeddir gan y Times Higher (safle 23 ac eithrio sefydliadau ymchwil meddygol), rydym yn uwch na phedair prifysgol Grŵp Russell ac yn gydradd â dwy arall. Yn ôl y Times Higher, dyma'r "naid uchaf ymhlith sefydliadau dwys eu hymchwili" er yr asesiad diwethaf yn 2008. Gwnaethom ddyblu swm yr ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang yn Abertawe yn ystod y cyfnod hwn; gyda thraean o'n hymchwili bellach yn arwain y ffordd yn fyd-eang a'r rhan fwyaf o'r gweddill yn rhagorol yn rhyngwladol.

Dangosodd canlyniadau'r REF hefyd fod academyddion Abertawe'n cyflawni ymchwil rhagorol ym mhob maes pwnc: STEM, Meddygaeth, Gwyddor Gymdeithasol, a'r Celfyddydau a'r Dyniaethau. Mae llwyddiant y Coleg Meddygaeth yn arbennig o nodedig am ei fod newydd ddatlu ei ddengmlwyddiant a graddio'i garfan gyntaf o feddygon Abertawe.

Mae graddfa'r ymchwil yn ogystal â'r ansawdd yn gwneud gwahaniaeth. Roedd cyfanswm yr ariannu ymchwil (grantiau ymchwil ac ariannu perthynol i ansawdd (QR) craidd) yn fwy na £50 miliwn am y tro cyntaf. Dyma'r swm lle caiff prifysgol ddwys ei hymchwili ei chydabod yn fwy difrifol, ac roedd yn darged penodol ar ein taith 'Cyfeiriadau Strategol'.


Golyga agor ein Campws y Bae gwerth £450 miliwn fod gennym isadeiledd i barhau i gynyddu rhagoriaeth ymchwil a phrofiad y myfyrwyr. Bydd hefyd yn caniatáu i ni uwchraddio ein cyfraniad at adfywiad economaidd yr ardal. Y campws newydd hwn yw un o'r prosiectau mwyaf uchelgeisiol yn sector addysg uwch y Deyrnas Unedig ers degawdau, ac fe'i cwblhawyd ar amser ac o fewn y gyllideb, er gwaethaf y dirwasgiad bydeang. Cynllunnir adeiladu pellach yn ogystal ag aildatblygu mawr ar Gampws Singleton yn y blynyddoedd i ddod.

Fel prifysgol ddwys ei hymchwili, rhaid i Abertawe gystadlu ar sawl lefel. Rydym yn cystadlu yng Nghymru am ariannu gan y Llywodraeth ac yn y Deyrnas Unedig am fyfyrwyr cartref. Rydym yn cystadlu yn rhyngwladol am fyfyrwyr tramor, recriwtio'r staff academaidd gorau a sicrhau ariannu gan ddiwydiant. Rhaid i'n hacademyddion gystadlu â rhai o'r grwpiau ymchwil cryfaf yn y byd i ennill grantiau ymchwil gan Gyngorau Ymchwil y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Mae lefel y gystadlueaeth yn dwysáu hefyd, oherwydd cyfyngiadau ariannu yn y sector cyhoeddus a llacio, a diddymu bellach, cwtâu myfyrwyr cartref prifysgolion yn Lloegr.

Rwy'n pwysleisio'r amgylchedd heriol hwn i sicrhau bod cydweithwyr ar draws y Brifysgol yn derbyn canmoliaeth lawn am eu hymdrechion a'u cyflawniadau sydd, ar y cyd, wedi sicrhau llwyddiant anhygoel i'r Brifysgol yn y blynyddoedd diweddar a momentwm sy'n argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol.

**Professor Richard B. Davies**

Vice-Chancellor



## Y BRIFYSGOL A'I GWAITH

Mae Prifysgol Abertawe'n sefydliad uchelgeisiol dwys ei ymchwil ag oddeutu 20,000 o fyfyrwyr. Gweledigaeth y Brifysgol yw 'Erbyn 2017, bydd Prifysgol Abertawe yn brifysgol ddwys ei hymchwil ymhlith y 30 o brifysgolion gorau yn y DU.'

Mae Prifysgol Abertawe wedi datblygu ei gallu ymchwil yn sylweddol dros y pum mlynedd ddiwethaf. Gwnaed buddsoddiad drwy'r broses cynllunio busnes, gan arallgyfeirio adnoddau tuag at y meysydd academiaidd mwyaf llwyddiannus. Cafwyd ffocws cryf ar ddatblygu gweithgarwch ymchwil rhyngddisgyblaethol.

### CENHADAETH

Gan aros yn ffyddlon i weledigaeth ei sylfaenwyr diwydiannol ym 1920, bydd Prifysgol Abertawe yn:

- a) Darparu amgylchedd o ragoriaeth ymchwil, gydag ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang, sy'n cydweithio'n fyd-eang, ac sy'n adnabyddus yn rhyngwladol.
- b) Darparu profiad rhagorol i fyfyrwyr, gydag addysgu o'r ansawdd uchaf a arweinir gan ymchwil ac a symbylir gan arfer sy'n cynhyrchu graddedigion â meddylfryd byd-eang sydd wedi'u haddysgu i gyflawni'n rhagorol, yn bersonol ac yn broffesiynol.
- c) Defnyddio ei chryfder ymchwil, ei chysylltiadau â diwydiant a'i dylanwad byd-eang i yrru twf economaidd, i fagu ffyniant, i gyfoethogi bywyd cymunedol a diwylliannol Cymru ac i gyfrannu at iechyd, hamdden a lles ei dinasyddion.

### STRATEGAETH

Strategaeth Prifysgol Abertawe yw manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan ein perfformiad llawer gwell o ran ein hymchwil, ansawdd ein haddysgu a phrofiad ein myfyrwyr, a'n rôl ddatblygol yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Nid yw Cenhadaeth y Brifysgol wedi newid. Fodd bynnag, mae'r dull ar gyfer cyflawni hyn a'r glasbrint unigryw ar gyfer ein dyfodol wedi'u diffinio'n fanylach ar gyfer cam diweddaraf ein datblygiad strategol.

Mae'r Brifysgol yn cynllunio twf uchelgeisiol mewn meysydd academiaidd allweddol a ddatblygir mewn partneriaeth â diwydiant a'r llywodraeth a fydd yn ysgogi datblygiad Economi Wybodaeth yn ne-orllewin Cymru. Y nodwedd allweddol a fydd yn galluogi'r cynlluniau hyn yw adeiladu Campws sy'n addas i'r unfed ganrif ar hugain, a fydd yn cynnwys Ymchwil a Datblygu diwydiannol yn gymysg â gwaith ymchwil academiaidd.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Cyllid yn adolygu'r cynlluniau ariannol, y rhagolygon a'r canlyniadau yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Bwriad y gwarged a gyllidebir yw ariannu rhaglen gyfalaf y Brifysgol, a gwella'r ystâd yn benodol.

## FFEITHIAU ALLWEDDOL AM Y BRIFYSGOL

Cyfanswm incwm: £229 miliwn
Cyfanswm incwm ymchwil: £48 miliwn
Cyfanswm y dyfarniadau ymchwil (incwm ymchwil llai grantiau gohiriedig a ryddhawyd): £44 miliwn
Staff academaidd a staff ymchwil fte*: 1,238
Yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfirwyr roedd 91% o fyfirwyr yn fodlon ar ansawdd eu cwrs
Mae bron 720 o fyfirwyr ymchwil; ac mae 18% o'n myfirwyr yn fyfirwyr tramor
Cyfanswm staff fte*: 2,725
Cyfanswm myfirwyr fte*: 13,319

\*fte: cyfwerth ag amser llawn

## SEFYDLIAD

Y Cyngor, corff llywodraethu'r Brifysgol, sy'n gyfrifol am weinyddu cyllid ac eiddo'r Brifysgol, ac mae ganddo reolaeth gyffredinol dros y Brifysgol a'i thrafodion, ei hamcanion a'i swyddogaethau. Ceir rhagor o fanylion yn yr adran 'Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor.' Aelodau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2015 oedd:

Rôl	Aelod	Diwedd Tymor
Canghellor	Y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan	31 Gorffennaf 2019
Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor	Syr Roger Jones	10 Medi 2019
Dirprwy Ganghellor	Syr Roderick Evans	Mawrth 2017
Trysorydd	Mr Friedrich (Fritz) Summer	31 Ionawr 2017
Is-ganghellor	Yr Athro Richard B. Davies	Tan iddo ymddeol
Dirprwy Is-gangellorion (uchafswm o 3)	Yr Athro Ian Cluckie (ymddeolodd fis Mai 2015) Yr Athro Iwan Davies Yr Athro Hilary Lappin-Scott Yr Athro Steve Wilks (o fis Mai 2015)	30 Tachwedd 2015 30 Tachwedd 2019 1 Rhagfyr 2017 31 Rhagfyr 2018
6 Aelod a benodir gan ac o Lys Prifysgol Abertawe  (*-tymor yn dod i ben yng Nghyfarfod Blynyddol Cyffredinol y Llys ar gyfer y sesiwn dan sylw)	Mr Gordon Anderson Mrs Jill Burgess Yr Athro Emeritws Y Fonesig June Clark Ms Debbie Green Mr Howard Morgan Mr Brian Thompson	Ionawr 2017 Ionawr 2018 Ionawr 2018 Ionawr 2019 Ionawr 2016 Ionawr 2016
4 aelod o'r staff academiaidd a benodir gan ac o'r Senedd,  (2 â statws Athro a 2 aelod staff nad ydynt yn athrawon)	Yr Athro David Blackaby Yr Athro Jane Thomas Dr Katharina Hall Mr Chris Whyley	30 Medi 2016 21 Hydref 2018 23 Tachwedd 2015 23 Tachwedd 2015
6 aelod wedi'u cyfethol gan Gyngor Prifysgol Abertawe	Mr Huw Jones Syr David Lewis Mr John Mahoney Mrs Rosemary Morgan Mrs Ann Owen Yr Arglwydd Michael Williams o Faglan	10 Medi 2017 20 Ionawr 2018 25 Mawrth 2016 10 Medi 2019 29 Mawrth 2018 Mawrth 2017
2 o gyflogeion Prifysgol Abertawe a enwebwyd gan Undebau Llafur cydnabyddedig y Brifysgol	Dr Simon Hoffman Mr John Tregembo	10 Medi 2019 10 Medi 2019
Llywydd Undeb y Myfyrwyr	Ms Ceinwen Cloney Mr Lewys Aron (o 1 Gorffennaf 2015)	30 Mehefin 2015 30 Mehefin 2016
Swyddog Chwaraeon Undeb y Myfyrwyr	Ms Charlotte Peters Mr Felix Mmeko (o 1 Gorffennaf 2015)	30 Mehefin 2015 30 Mehefin 2016

Mae'r Brifysgol wedi'i threfnu'n saith Coleg.

Arweinir y gweithgareddau gweinyddol a chynorthwyol gan y Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredol.

Mae gan yr Uwch Dîm Rheoli gyfrifoldeb gweithredol dros y Brifysgol ac mae'n cynnwys yr Is-ganghellor, y Dirprwy Is-gangellorion, y Cyfarwyddwr Cyllid, a'r Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredol.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli bellach yn cynnwys:

Yr Athro Richard B. Davies – Is-ganghellor

Mr Raymond Ciborowski – Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredol

Yr Athro Iwan Davies – Uwch Ddirprwy Is-ganghellor (Ystadau a Rhyngwladoli a'r Gyfraith)

Yr Athro Ian Cluckie – Dirprwy Is-ganghellor (Pynciau STEM, a Gwyddor Feddygol a Iechyd) Ymddeolodd ar 31 Mai 2015

Yr Athro Steve Wilks – Dirprwy Is-ganghellor (Profiad y Myfyrwyr a Gwyddoniaeth a Pheirianneg)

Yr Athro Martin Stringer – Dirprwy Is-ganghellor (Academaidd, y Celfyddydau a'r Dyniaethau, a'r Gwyddorau Cymdeithasol)

Yr Athro Hilary Lappin-Scott – Uwch Ddirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Arloesi, Yr Ysgol Reolaeth, y Gwyddorau Dynol ac Iechyd, a Meddygaeth)

Mr Rob Brelsford-Smith – Cyfarwyddwr Cyllid

Y Bwrdd Rheoli yw pwyllgor rheoli uwch a gweithredol y Brifysgol, sy'n cynnwys yr Is-ganghellor, y Dirprwy Is-gangellorion, Penaethiaid y Colegau, y Cofrestrydd, y Cyfarwyddwr Cyllid a dau gynrychiolydd y Cyfarwyddwyr gweithrediadau gweinyddol allweddol. Mae'r corff hwn yn fforwm ar gyfer cydweithio i roi cyfeiriad i'r sefydliad cyfan ac ar gyfer cynghori'r Is-ganghellor ac uwch swyddogion eraill y Brifysgol ar faterion yn ymwneud â'u cyfrifoldebau penodol.

Mae strwythur llywodraethu'r Brifysgol wedi'i esbonio'n llawnach yn yr adran llywodraethu Corfforaethol.

## YMCHWIL AC ARLOESI

Yn ystod y flwyddyn bu cynnydd o 11.8% yng ngwerth incwm o grantiau a chontractau i £48.2 miliwn o £43.1 miliwn yn y flwyddyn flaenorol.

## DYSGU AC ADDYSGU

### Nifer o Fyfrwyr

Yr Holl Fyfrwyr	Cartref	Ynys	Tramor	Cyfanswm	Llwyth Cartref fte*	Llwyth Ynys fte*	Llwyth Tramor fte*	Cyfanswm Llwyth fte*
Israddedigion Amser Llawn	10,187	13	2,703	12,903	8,474	13	1,607	10,094
Israddedigion Rhan-amser	2,550	0	1	2,551	350	0	0	350
Ôl-raddedigion a Addysgir Amser Llawn	434	2	616	1,052	390	2	597	989
Ôl-raddedigion a Addysgir Rhan-amser	906	0	20	926	229	0	3	232
Ôl-raddedigion Ymchwil Amser Llawn	413	0	176	589	403	0	171	574
Ôl-raddedigion Ymchwil Rhan-amser	124	0	4	128	62	0	2	64
Myfyrwyr Israddedig Heb eu Hariannu	1,560	0	0	1,560	1,016	0	0	1,016
	<b>16,174</b>	<b>15</b>	<b>3,520</b>	<b>19,709</b>	<b>10,924</b>	<b>15</b>	<b>2,380</b>	<b>13,319</b>

\*FTE: Cyfwerth ag amser llawn



## GWAITH Y BRIFYSGOL

Mae wedi bod yn flwyddyn ardderchog arall i brifysgol Abertawe, gan adeiladu sylfeini cryf ar gyfer llwyddiant a thwf parhaus yn y dyfodol.

Dengys canlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014 mai Prifysgol Abertawe cododd y nifer mwyaf o safleoedd ymhlith sefydliadau dwys eu hymchwil, o safle 52 yn 2008 i safle 26 yn y Deyrnas Unedig. Mae ymchwil y Brifysgol bellach wedi'i raddio ymhlith yr 20 gorau yn y Deyrnas Unedig mewn saith pwnc<sup>1</sup>: Meddygaeth (2), Saesneg (7), Biowyddoniaeth (8), Peirianeg (12), Gwaith Cymdeithasol (14), Gwyddor Chwaraeon (15) a Chyfrifiadureg (18). Yn gyffredinol mae'r Brifysgol wedi dyblu'r nifer o ymchwilwyr sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang ac mae 90% o ymchwil y Brifysgol bellach wedi'i raddio yn rhagorol yn rhyngwladol neu'n arwain y ffordd yn fyd-eang. Mae canlyniadau REF 2014 yn cadarnhau bod ymchwil y Brifysgol yn cael effaith economaidd a chymdeithasol sylweddol, parhaus a gwerthfawr, yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, ac yn rhyngwladol hefyd.

<sup>1</sup>Wedi'i graddio'n erbyn prifysgolion eraill yn cyflwyno i'r un Uned Asesu yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014

Profodd y Brifysgol gynnydd pwysig yng nghanlyniadau Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrrwyr 2015. Mae Abertawe bellach yn yr wythfed safle yn y Deyrnas Unedig o ran bodlonrwydd cyffredinol, gydradd gyntaf yng Nghymru. Mae 18 o'r 41 o feysydd pwnc ymhlith y deg uchaf o ran bodlonrwydd cyffredinol, gyda phedwar ar y brig (Geneteg, Astudiaethau'r Cyfryngau, Technoleg Feddygol ac Astudiaethau Hanesyddol ac Athronyddol), ac mae wyth arall yn y pump uchaf (Cyfrifiadureg, Y Gyfraith, Technoleg Deunyddiau a Mwnau, Y Clasuron, Polisi Cymdeithasol, Peirianeg Awyrfodol, Astudiaethau Eidalaidd ac Osteopat heg). Mae'r Brifysgol hefyd yn darparu cyfleoedd gwych i'w graddedigion i fynd ymlaen i swydd dda neu astudiaeth bellach – mae Abertawe bellach yn y pymthegfed safle yn y Deyrnas Unedig ac ar y brig yng Nghymru o ran creu graddedigion â meddylfryd byd-eang â'r gallu i symud ymlaen i astudiaeth bellach neu ennill swydd lefel broffesiynol o fewn chwe mis i raddio.

Agorodd Campws Gwyddoniaeth ac Arloesi y Bae gwerth £450 miliwn Prifysgol Abertawe fis Medi 2015. Gwnaethpwyd y rhaglen yn bosib drwy ariannu gan Fanc Buddsoddi Ewrop (EIB), Llywodraeth Cymru, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth y Deyrnas Unedig drwy'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau. Mae amcan effaith economaidd y prosiect dros £3 biliwn dros ddeng mlynedd. Bydd y Coleg Peirianeg a'r Ysgol Reolaeth yn symud i Gampws y Bae, a fydd hefyd yn darparu

llety hyfryd i 1,462 o fyfyrwyr, Neuadd Fawr syfrdanol; ag awditoriwm i 800 o bobl, Llyfrgell y Bae, a chyfleusterau helaeth arlwy, chwaraeon, manwerthu ac Undeb y Myfyrwyr. Ar Gampws Singleton agorodd yr Adeilad Gwyddor Data, gan ddod â dwy ganolfan Ragoriaeth at ei gilydd o dan un to, sef Sefydliad Farr Ymchwil Gwybodeg Iechyd gwerth £9.3 miliwn a Chanolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru (ADRC Cymru) newydd gwerth £8 miliwn, gan alluogi i ymchwilwyr gydweithio i ryddhau potensial data ar raddfa fawr i gynnal ymchwil pwerus newydd.

Yn ogystal dyfarnwyd 5 Seren i'r Brifysgol gan QS Stars, y system graddio ansawdd a gydnabyddir yn fyd-eang, sy'n golygu bod y sefydliad yng nghwmni prifysgolion mwyaf blaenllaw'r byd, megis Harvard, Stanford, Yale, Rhydychen a Chaergrawnt.

Mae'r Brifysgol wedi bod yn nhri uchaf Prifysgol y Flwyddyn WhatUni, gwobr drwy bleidlais myfyrwyr, am y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r Brifysgol wedi ennill Gwobr Arweinyddiaeth a Rheoli y Times Higher bob blwyddyn rhwng 2012 a 2014, ac yn 2014 cyrhaeddodd y Brifysgol rhestr fer y wobwr chwenychedig, Prifysgol y Flwyddyn y Times Higher Education. Mae'r cyflawniadau yn ystod y flwyddyn yn cadarnhau safle Abertawe fel Prifysgol uchelgeisiol a llawn dyhead, sydd ar frig ton o lwyddiannau diweddar sydd wedi gweld enw da'r Brifysgol yn gwella fwy fyth.

## COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Caiff datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl bynciau ei oruchwyllo gan Academi Hywel Teifi, sy'n gartref i gangen Coleg Cymraeg Cenedlaethol y Brifysgol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Academi wedi ymgymryd ag ystod o waith i ddatblygu'r agenda cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys hyrwyddo'r cyfleoedd staffio cyfrwng Cymraeg sydd ar gael gan y Brifysgol neu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac ymchwilio i ffyrdd o gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy gefnogi staff dwyieithog presennol. Mae'r nifer o fyfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y Dystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg, sy'n arddangos eu gallu i gyfathrebu'n hyderus ac yn broffesiynol yn Gymraeg yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn cynyddu bob blwyddyn ac yn profi canlyniadau gwych.

Gwnaed nifer o geisiadau llwyddiannus am ariannu o Gronfa Strategol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan alluogi i staff ddatblygu modiwlau newydd, cynnal ysgolion haf a pharatoi adnoddau dysgu. Dyfarnwyd ariannu gan y Coleg Cymraeg eleni hefyd. Derbyniodd y Brifysgol nifer o ysgoloriaethau a dyfarniadau cymhelliant i'w dyrannu i fyfyrwyr cymwys, gan gynnwys ariannu ar gyfer dau fyfyrwr PhD newydd.

## DATGANIAD BUDDION CYHOEDDUS

Daeth y Brifysgol yn elusen gofrestredig ym mis Medi 2010 a'i rhif elusen yw 1138342.

Diffinnir y fframwaith cyfansoddiadol y mae'r Brifysgol yn gweithredu ynddo yn y Siarter a'r Statudau. Amcanion y Brifysgol yw hyrwyddo dysgu a gwybodaeth drwy addysgu ac ymchwil, a chymryd rhan mewn gweithgareddau i hyrwyddo a chyfrannu at ddatblygiad diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru a'r tu hwnt. Mae gweledigaeth a nodau ac amcanion strategol y Brifysgol wedi'u hamlinellu yng Nghynllun Strategol y Brifysgol.

Wrth bennu ac adolygu amcanion y Brifysgol a'i gweithgareddau, rhoddodd Cyngor y Brifysgol sylw priodol i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar adrodd ar fuddion cyhoeddus, ac yn arbennig ei arweiniad ar fuddion cyhoeddus atodol ar hyrwyddo addysg.

**Darparu amgylchedd o ragoriaeth ymchwil, gydag ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang, a gyflawnir ar y cyd ac a gydnabyddir yn rhyngwladol.**

Cyflawnodd y Brifysgol y naid uchaf ymhlith sefydliadau dwys eu hymchwil y Deyrnas Unedig yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014 – o safle 52 yn 2008 i safle 26. Graddiwyd Prifysgol Abertawe ymhlith yr ugain gorau yn y Deyrnas Unedig mewn saith pwn, ac yn gyffredinol dyblodd y Brifysgol ei nifer o ymchwilwyr sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang. Mae 90% o ymchwil y Brifysgol bellach wedi'i raddio'n rhagorol yn rhyngwladol neu'n arwain y ffordd yn fyd-eang.

Mae'r gyfran uchel iawn o ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang ac yn rhagorol yn rhyngwladol mewn Meddygaeth, Peirianeg, Cyfrifiadureg a Gwyddor Amgylcheddol yn hanfodol wrth gefnogi datblygiad parhaus portffolio ymchwil y Brifysgol. Y meysydd hyn, gan weithio'n rhyngddisgyblaethol gydag ymchwilwyr yn y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, sydd wedi creu'r cryfder, yn ffisegol ac o ran enw da, sy'n cefnogi cyfraniad Prifysgol Abertawe i'r sylfaen ymchwil yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

Dros y ddeng mlynedd ddiwethaf mae'r Brifysgol wedi buddsoddi'n sylweddol mewn parhau i greu amgylchedd ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang; gan fuddsoddi yng Nghampws Parc Singleton drwy'r Sefydliad Gwyddor Bywyd, Sefydliad Gwyddor Bywyd 2, Canolfan Ymchwil Dyframaeth Cynaliadwy a Gwyddor Data yn Abertawe. Fis Medi 2015 agorodd y Brifysgol ddrysau Campws newydd y Bae gwerth £450 miliwn. Mae Campws y Bae yn amgylchedd arloesi helaeth sy'n gwneud y gorau o dwf ymchwil ar y cyd â diwydiant mewn clystrau technoleg uchel lle mae gan Abertawe gryfderau sefydlog.

Mae'r Brifysgol hefyd yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau a darlithoedd cyhoeddus rheolaidd sy'n agored i'r cyhoedd, ac sy'n helpu i ddatblygu dealltwriaeth y cyhoedd o wyddoniaeth.

**Darparu profiad rhagorol i fyfyrwyr, gydag addysgu o'r ansawdd uchaf a arweinir gan ymchwil ac a symbylir gan arfer sy'n cynhyrchu graddedigion â meddylfryd byd-eang sydd wedi'u haddysgu a'u paratoi i gyflawni'n rhagorol, yn bersonol ac yn broffesiynol.**

Mae'r Brifysgol yn addysgu oddeutu 20,000 o fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig ar draws ystod eang o feysydd pwn. Mae'r addysg hon yn datblygu myfyrwyr yn academiaidd ac yn cynyddu eu rhinweddau arweinyddiaeth a'u sgiliau rhyngbersonol, ac yn eu paratoi i chwarae rôl lawn ac effeithiol yn y gymdeithas.

I gefnogi'r nod hwn mae'r Brifysgol wedi sefydlu Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (SALT) ac Academi Cyflogadwyedd Abertawe (SEA). Mae SALT yn hyrwyddo rhagoriaeth mewn dysgu ac addysgu ac yn darparu arweinyddiaeth ar gyfer gwella asesu ac adborth, addysg a arweinir gan ymchwil, cyflwyno cysiau ar-lein ac ymchwil addysgeg. Mae SEA yn bartneriaeth rhwng y Brifysgol, ei myfyrwyr, cyflogwyr ac entrepreneuriaid lleol, y cyngorau sgiliau sector, a'r llywodraeth i gefnogi datblygiad cyflogadwyedd, arloesi a sgiliau mentergarwch y myfyrwyr, gan gynnwys trwy gynyddu'n sylweddol y nifer o fyfyrwyr sy'n cael cyfle i fynd ar leoliad gwaith neu i astudio dramor.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod rhaid i ehangu mynediad at addysg uwch gyflwyno'r sgiliau lefel uwch sy'n gwella cyfleoedd bywyd y buddiolwyr yn barhaus. Mae'n derbyn myfyrwyr sydd â'r potensial uchaf i elwa o addysg uwch ac yn recriwio'r staff academiaidd sy'n gallu cyfrannu fwyaf i ragoriaeth academiaidd, ni waeth beth yw eu cefndir ariannol, cymdeithasol, crefyddol neu ethnig.

<p>...parhad</p>	<p>Mae gan y Brifysgol hanes ardderchog o gyflawni yn y maes hwn, ac mae Academi Cynwysoldeb a Chymorth Dysgwyr Abertawe (SAILS), a sefydlwyd yn 2012, yn ffocws campws cyfan ar ehangu mynediad er mwyn gwella'r cyfleoedd i bobl o gefndiroedd amrywiol elwa ar addysg uwch, ac er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn y cymorth academaidd a bugeiliol sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn eu hastudiaethau. Mae gan bob Coleg yn y Brifysgol arweinydd i weithio gyda chydweithwyr adrannol i adnabod arfer da presennol yn y Brifysgol mewn perthynas ag ehangu mynediad a chymorth i ddysgwyr, ac i ddatblygu'r gwaith ymhellach.</p> <p>Mae rhaglen allgymorth gynhwysfawr yn cynyddu dyheadau addysgol ac yn denu ymgeiswyr eithriadol efallai na fyddent wedi ystyried gwneud cais i'r Brifysgol fel arall. Mae hyn yn cynnwys rhaglen gynhwysfawr o ymweliadau ag ysgolion, ymweliadau gan ysgolion â'r Brifysgol, diwrnodau agored a symposia derbyn ar gyfer athrawon, yn ogystal ag arweiniad a gwybodaeth i ddarparu ymgeiswyr ar wefan y Brifysgol.</p>
<p>Defnyddio ei chryfder ymchwil, ei chysylltiadau â diwydiant a'i dylanwad byd-eang i yrru twf economaidd, i fagu ffyniant, i gyfoethogi bywyd cymunedol a diwylliannol Cymru ac i gyfrannu at iechyd, hamdden a lles ei dinasyddion.</p>	<p>Yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu ymagwedd radical a thrawsnewidiol er mwyn lleoli ei hun yn brifysgol 'angor' effeithiol yn y rhanbarth drwy wireddu ei strategaeth hirdymor ar gyfer ymchwil a chydweithio â diwydiant. Mae twf y Brifysgol yn ystod y degawd diwethaf yn allweddol o ran ei gallu i effeithio ar dwf economaidd yng Nghymru. Mae'r mäs critigol a sefydlwyd yn y sectorau blaenoriaeth, sef Peirianeg a Deunyddiau Uwch, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a'r Economi Ddigidol, a'r Gwyddorau Bywyd ac Iechyd yn galluogi i'r Brifysgol yrru gwelliannau cynhyrchiant o ddifrif, gan hybu cystadleugarwch economaidd y rhanbarth.</p> <p>Gan adeiladu ar ei chryfderau ymchwil a phartneriaethau â diwydiant, mae'r Brifysgol wedi llwyddo i gyflawni nifer o brosiectau mawr a gefnogwyd gan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, sydd wedi gwireddu buddion sylweddol i Gymru a'r rhanbarth drwy greu swyddi, gwella cynhyrchiant a darparu cymorth i fusnesau. Gwerth ei nodi'n benodol yw Sefydliad Gwyddor Bywyd y Brifysgol, sef adain ymchwil y Coleg Meddygaeth, sydd wedi gwireddu buddion pendant i ofal iechyd a'r economi ranbarthol, a Champws Gwyddoniaeth ac Arloesi'r Bae, sy'n adeiladu ar ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fydeang Coleg Peirianeg y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn cefnogi busnesau lleol drwy gydweithio'n uniongyrchol â chyflogwyr lleol i nodi a diwallu eu hanghenion sgiliau a'u helpu i ddatblygu sgiliau sy'n hanfodol i gynyddu ffyniant yng Nghymru.</p> <p>Mae'r Brifysgol yn dal casgliadau ymchwil hanesyddol o bwys rhyngwladol. Mae'r casgliadau unigryw ac amrywiol hyn, gan gynnwys Archifau Richard Burton, yn cefnogi ymchwil ac addysgu sy'n arwain y ffordd yn fydeang yn y Brifysgol ac yn amrywio o ran eu cwrpas, o lyfrau ac archifau prin i gofnodion hanes llafar a phamffledi. Mae Archifau'r Brifysgol yn cadw'r casgliadau ac yn eu gwneud yn hygyrch i'r genhedlaeth bresennol ac i genedlaethau'r dyfodol. Mae'r Casgliadau eu hunain yn rhoi golwg ddiddorol iawn ar hanes diwydiannol, diwylliannol, cymdeithasol, gwleidyddol ac addysgol de Cymru, ac maent yn agored i'r cyhoedd.</p> <p>Mae Canolfan y Celfyddydau Taliesin ac Amgueddfa'r Ganolfan Eiffaidd, y mae'r ddau ohonynt ar Gampws Singleton, yn darparu rhaglen eang o sgriniadau sinema, arddangosfeydd teithiol a gweithgareddau i'r gymuned leol, y cyhoedd a phlant ysgol lleol. Mae gan y Brifysgol hefyd gyfleusterau llyfrgell a chwaraeon cynhwysfawr, sydd ar gael i'r gymuned leol.</p> <p>Mae Darganfod, mudiad a arweinir gan fyfyrwyr, yn cydlynu cannoedd o fyfyrwyr sy'n gwirfoddoli mewn oddeutu ugain o brosiectau cymunedol sy'n cael eu rhedeg gan fyfyrwyr. Mae'n mynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol a thlodi drwy weithio gyda phlant ac oedolion sydd ag anableddau ac anawsterau dysgu, ac yn rhoi cyfeillgarwch a chymorth ymarferol i bobl hŵn.</p> <p>Mae buddiolwyr y Brifysgol yn cynnwys myfyrwyr, staff academaidd ymweld, plant ysgol, cyn-fyfyrwyr y Brifysgol a'r cyhoedd – y maent oll yn cael cyfle i ddod i ddiwyddiadau addysgol (megis darlithoedd cyhoeddus, arddangosfeydd a gweithgareddau eraill) a defnyddio'r cyfleusterau academaidd.</p>

## RHEOLAETH ARIANNOL A RHEOLI RISG

### INCWM

Bu gostyngiad o £6.5 miliwn yng nghyfanswm y grantiau cylchol gan gyrrff ariannu, sy'n adlewyrchu'r gostyngiad parhaus yng ngrant Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. O ganlyniad, bu cynnydd o £18.3 miliwn yn incwm ffioedd dysgu myfyrwyr cartref a myfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd yn ystod y flwyddyn, yn sgil codi ffioedd dysgu yn 2013. Gwrthbwywyd y cynnydd o ran incwm ffioedd dysgu gan wariant o £5.6 miliwn i greu bwrsariaethau, a oedd yn ofyniad yn y Cynllun Ffioedd.

### LLIF ARIAN

Yn unol â Pholisi Rheoli Trysorfa'r Brifysgol, yr amcan buddsoddi yw sicrhau'r elw gorau posib wrth gadw risg i isafswm. Rheolir adneuron tymor -byr y Brifysgol gan gwmni Royal London Group, ac mae'r Is-Bwyllgor Buddsoddi yn monitro perfformiad y cwmni yn ôl meincnodau a bennwyd ymlaen llaw.

### POLISI BENTHYCA

Yn flaenorol mae'r Brifysgol wedi cynnal lefel gymharol fach o fenthyciadau sy'n ymwneud â chynlluniau cyfalaf y mae'r Brifysgol wedi ymgymryd â hwy yn y gorffennol. Mae'r benthyca wedi cynyddu yn 2014/15 fel ariannu rhannol tuag at ddatblygiad Cam 1 Campws y Bae, a gwblhawyd erbyn mis Medi 2015. Yn fwy diweddar mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu polisi o ganiatáu i drydydd partiion ddatblygu cyfleusterau, megis llety i fyfyrwyr.

Ochr yn ochr â'i pholisiau dod o hyd i ariannu, mae'r Brifysgol hefyd yn ofalus wrth reoli'r risgiau a lleiafu anhyblygrwydd cynhenid trefniadau hirdymor. Wrth fenthycia, dilyna'r Brifysgol yr egwyddorion canlynol:

- Osgoi bod yn agored i gynnydd mewn cyfraddau llog efallai na fyddai'n fforddiadwy.
- Cadw hyblygrwydd i ailstrwythuro benthyciadau a risg o ran cyfraddau llog yn annibynnol i'w gilydd.
- Gwneud y gorau o'r fantais a gawn gan gyfamod y Brifysgol.
- Cadw maint y ddyled i lefel y gellir ei gwasanaethu'n ddiogel drwy weithredu llif arian sy'n gyson â chyfamodau bancio'r Brifysgol.
- Strwythuro'r proffil ad-daliadau cyffredinol i gyfyngu'r pwysau ar y llif arian.

Mae'n ofynnol bod Prifysgol Abertawe yn cydymffurfio â chyfamodau ariannol a gyhoeddwyd gan Fanc Buddsoddi Ewrop (EIB) yn unol â'r Cytundeb Ariannol o ran gwasanaethu dyledion, geriad a hylifedd. Mae rheolwyr y Brifysgol yn monitro cydymffurfio â chyfamodau'n rheolaidd wrth ystyried buddsoddi perthnasol yn seilwaith y Brifysgol.

### RHEOLI ARIAN A HYLIFEDD

Derbynnir canran uchel o incwm y Brifysgol ar amserlen sefydlog a hysbysir ymlaen llaw. Mae hyn yn caniatáu i'r Brifysgol gynnal gwarged ac osgoi dibynnu ar fenthyciadau tymor -byr. Fel arfer caiff gwarged arian parod ei drosglwyddo i adneuron y farchnad arian. Caiff y rhan fwyaf o'r rhain eu rheoli mewn cyfrif ar wahân ar ran y Brifysgol, ac mae eu proffil aeddfedrwydd yn cydbwysu risg ac adenillion, gan adlewyrchu cynlluniau buddsoddi cyfalaf y Brifysgol. Pennwyd uchafswm o £5 miliwn o ran maint yr adneuron sydd yng ngofal un sefydliad ariannol unigol, er y caniateir rhoi hyd at £10 miliwn yng ngofal banciau clirio'r Deyrnas Unedig.

Yng ngoleuni ansicrwydd cyfredol yn y marchnadoedd, mae'r Brifysgol yn parhau i fonitro ei hadneuron yn weithredol.

Yn ogystal, mae gan y Brifysgol gronfeydd ar gyfer darparu ysgoloriaethau, gwobrau a gweithgareddau gwaddoledig eraill. Mae'r cronfeydd hyn wedi'u buddsoddi mewn cymysgedd o ecwitiâu, stociau a bondiau cyfnod penodol, arian parod ac offerynnau eraill a ddylunnir i gynhyrchu incwm wrth ddiogelu gwerth sylfaenol y cyfalaf.

### PRIF RISGIAU AC ANSICRWYDD

Caiff y bygythiadau i'r Brifysgol eu rheoli gan Uwch Dîm Rheoli'r Brifysgol drwy Gofrestr Risg y Brifysgol. Er mai cyfrifoldeb yr uwch reolwyr yw'r risgiau, caiff y camau gweithredu lliniarol eu rhaeadu i lawr y Brifysgol. Mae gan bob Coleg ac Adran Gwasanaethau Proffesiynol y Brifysgol gofrestr risg unigol i sicrhau y rheolir risgiau'n weithredol. Caiff Cofrestr Risg y Brifysgol ei hadolygu bob tri mis gan yr Uwch Dîm Rheoli a chan Gyfarwyddwyr yr Adranau Gwasanaethau Proffesiynol. Ar hyn o bryd, mae 22 risg ar Gofrestr Risg y Brifysgol, ac o'r rhain, tybir bod gan 6 statws COCH h.y. y rhai sy'n achosi'r pryder mwyaf.

- Mae'r risg mewn perthynas â Chynlluniau Pensiwn y Brifysgol yn achosi pryder o hyd oherwydd prisiad y cynlluniau a'r angen i liniaru canlyniadau ariannol.
- Bydd y targedau recriwtio myfyrwyr ac incwm grantiau uchelgeisiol yn achosi heriau i'r rheolwyr o ran gofod ffisegol ar Gampws Singleton a Champws y Bae.
- Mae risg bod gwaith cadw a chynnal ar hen adeiladau Campws Singleton yn amharu ar weithgarwch ymchwil neu addysgu.
- Gallai methu cyflawni'r llw o brosiectau academiaidd a ariennir yn allanol effeithio ar gynlluniau busnes y Colegau ac ar enw da a chyllid y Brifysgol.

- Bydd methu cyflawni strategaethau cyfrifiadura perfformiad uchel (HPC) yn llwyddiannus yn effeithio ar anghenion academaidd, enw da a chyllid y Brifysgol.
- Mae gweledigaeth y Brifysgol o fod yn sefydliad dwys ei ymchwil yn dibynnu ar gyflawni'r targedau incwm ymchwil.

## DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

Mae'r Brifysgol yn defnyddio nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) i gynorthwyo wrth fonitro gweithgarwch y Brifysgol o gymharu â'r amcanion. Nodir rhai o'r prif ddangosyddion isod.

### DYSGU AC ADDYSGU

<b>KPI</b>	Llwyddiant gradd israddedigion amser-llawn
<b>Yn mesur</b>	Llwyddiant wrth gefnogi myfyrwyr yn eu profiad dysgu
<b>Blwyddyn</b>	<b>Sy'n ennill gradd dosbarth cyntaf / ail ddosbarth uwch (%)</b>
2014-15	76.3
2013-14	74.1

**Sylw:** Mae cyfran y myfyrwyr sy'n ennill gradd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch dal i gynyddu.

<b>KPI</b>	Cyfraddau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfrwyr o bob dimensiwn ansawdd ar lefel sefydliad						
<b>Yn mesur</b>	Bodlonrwydd myfyrwyr ar ansawdd y dysgu a'r addysgu						
<b>Blwyddyn</b>	<b>Addysgu ar fy nghwrs (%)</b>	<b>Aseu ac adborth (%)</b>	<b>Cymorth Academaidd (%)</b>	<b>Trefniadaeth a rheolaeth (%)</b>	<b>Adnoddau dysgu (%)</b>	<b>Datblygiad personol (%)</b>	<b>Yn gyffredinol, rwy'n fodlon ar ansawdd y cwrs (%)</b>
2015	90	74	84	82	88	85	91
2014	87	71	82	75	84	83	89

**Sylw:** Mae'r Brifysgol yn parhau i ymdrechu i wella profiad myfyrwyr trwy amrywiaeth o fesurau.

### AMRYWIAETH

NS-SEC: Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol

<b>KPI</b>	Canran y myfyrwyr o grwpiau ehangu cyfranogiad	
<b>Yn mesur</b>	Llwyddiant wrth ddenu grwpiau a dangynrychiolir mewn Addysg Uwch i astudio ym Mhrifysgol Abertawe	
<b>Blwyddyn</b>	<b>2014-15</b>	<b>2013-14</b>
<b>Ehangu cyfranogiad (%)</b>		
○ ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf	6.1	6.2
○ ddosbarthiadau NS-SEC 4, 5, 6 a 7	19.2	18.4
○ ardaloedd cyfoeth isel	13.8	13.4
<b>Rhyngwladoli (%)</b>		
Nifer o fyfyrwyr tramor fel canran o gyfanswm y myfyrwyr	18%	17%

**Sylw:** Mae'r Brifysgol yn parhau i ddenu grwpiau a dangynrychiolir i astudio ym Mhrifysgol Abertawe.

## CYMHAREB STAFF/MYFYRWYR

<b>KPI</b>	Nifer y staff fel cyfran o nifer y myfyrwyr		
<b>Yn mesur</b>	Lefel y cymorth a roddir i fyfyrwyr gan staff		
<b>Blwyddyn</b>	<b>Nifer o fyfyrwyr (fte)</b>	<b>Nifer o staff academiaidd (fte)</b>	<b>Cymhareb Myfyrwyr/Staff</b>
2014-15	13,319	846	15.74
2013-14	12,562	843	14.90

**Sylw:** Bu cynnydd o 6.0% yn y nifer o fyfyrwyr (fte) o'i gymharu â 2013-14, ond bu cynyddodd o 1% yn y nifer o staff academiaidd (fte). Yn gyffredinol, cynyddodd y gymhareb myfyrwyr/staff o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## YMCHWIL

<b>KPI</b>	Twf mewn incwm ymchwil	Twf mewn grantiau ymchwil a ddyfarnwyd
<b>Yn mesur</b>	Llwyddiant wrth gynyddu incwm ymchwil	Llwyddiant wrth ennill grantiau ymchwil
<b>Blwyddyn</b>	<b>Gwirioneddol (£m)</b>	<b>Gwirioneddol (£m)</b>
2014-15	48.2	44.2
2013-14	43.1	38.9

**Sylw:** Yn ystod y flwyddyn cafwyd cynnydd o 11.8% mewn incwm ymchwil. Mae gwerth y grantiau ymchwil a gipiwyd yn ystod y flwyddyn wedi codi 13.6%.

## ARIANNOL

<b>KPI</b>	Gwarged gweithredu (cyn eitemau eithriadol) fel canran o incwm
<b>Yn mesur</b>	Gallu i fuddsoddi yn asedau'r Brifysgol
<b>Blwyddyn</b>	
2014-15	8.0
2013-14	3.5

**Sylw:** Nod y Brifysgol yw sicrhau gwarged o 3% fel canran o'i hincwm, fel yr amlgyir yn ei strategaeth ariannol. Mae'r cynnydd yn y gwarged gweithredol o ganlyniad i dderbyniadau unigryw yn ystod y flwyddyn.

<b>KPI</b>	Diwrnodau o asedau hylifol net o gymharu â gwariant
<b>Yn mesur</b>	Hylifedd – y gallu i dalu costau'r Brifysgol
<b>Blwyddyn</b>	
2014-15	91
2013-14	85

**Sylw:** Nod y Brifysgol yw dal digon o arian ar gyfer 35 diwrnod o wariant mewn asedau hylifol; rhagorir ar hyn ar hyn o bryd yn rhannol oherwydd y swm mawr o arian parod a ddelerir o ganlyniad i dderbyn grantiau a benthyciadau ymlaen llaw.

<b>KPI</b>	Asedau net hylifol treuliadwy o gymharu â'r ddyled hirdymor
<b>Yn mesur</b>	Hyfywedd – cymhareb cronfeydd y Brifysgol ei hun i'r cronfeydd allanol
<b>Blwyddyn</b>	
2014-15	1.03
2013-14	1.37

**Sylw:** Yn ystod y flwyddyn tynnodd y Brifysgol £20 miliwn ychwanegol o'i gyfleuster benthycu gyda EIB i dalu am waith adeiladu Rhaglen Ehangu'r Campws, sydd wedi lleihau'r gymhareb, oedd yn uchel o'r blaen, ymhellach. O dan y cyfmodau ariannol, ni ddylai'r ddyled i EIB fod yn fwy na 60% o asedau diriaethol net y Brifysgol.

#### YSTADAU

Mae holl KPI ystadau'n seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yn yr Ystadegau Rheoli Ystadau (EMS).

<b>KPI</b>	Costau ynni
<b>Yn mesur</b>	Gwariant cyfartalog ar ynni (pob tanwydd) fesul m2 cyfanswm arwynebedd mewnol net yr ystâd (NIA).  Lle nad yw'r ffigurau NIA ar gael, graddiwyd arwynebedd ystafelloedd 6% yn uwch.
<b>Blwyddyn</b>	
2013-14	26.39
2012-13	25.65

**Sylw:** Mae'r gwariant fesul m2 wedi cynyddu am fod costau ynni wedi codi o £3,072,791 i £3,505,825 ac mae'r ardal fewnol net wedi lleihau o 134,807m<sup>2</sup> i 132,899 m<sup>2</sup>.

Cyfrifwyd hyn drwy rannu cyfanswm costau ynni (FECTOT) â'r ardal fewnol net (SMNIAT).

Nid yw'n rhan o'r Cymarebau Allweddol bellach.

<b>KPI</b>	Allyriadau	
<b>Yn mesur</b>	Allyriadau ynni tybiannol (kg CO <sub>2</sub> ) fesul metr sgwâr o arwynebedd mewnol gros (D11) C1	Allyriadau ynni tybiannol (kg CO <sub>2</sub> ) fesul myfyriwr fte (D4) C1
<b>Blwyddyn</b>		
2013-14	86	1,319
2012-13	99	1,568

**Sylw:** Mae cyfanswm yr allyriadau ynni (E12CENRT) wedi gostwng o 16,127,506 i 13,803,231.91

<b>KPI</b>	Ystâd ddibreswyl – metrau sgwâr fesul myfyriwr
<b>Yn mesur</b>	Faint o le a ddyrennir i bob myfyriwr
<b>Blwyddyn</b>	<b>m<sup>2</sup></b>
2013-14	7.1
2012-13	7.4

**Sylw:** Mae'r nifer o fyfyrwyr wedi cynyddu ond mae NIA/GIA wedi lleihau.



## ADRODDIAD ARIANNOL

### CYFLWYNIAD

Mae wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus i'r Brifysgol; rydym wedi llwyddo i sicrhau gwarged iach ar adeg o ansicrwydd mawr yn yr amgylchedd economaidd ehangach. Mae incwm cyffredinol wedi gweld twf o 11.4%, a thrwy reoli adnoddau'n effeithiol, cafwyd gwarged o £18.3 miliwn (8.0% o incwm). Cafwyd cynnydd o 11.8% mewn incwm grantiau ymchwil yn ystod y flwyddyn i £48.2 miliwn, o'i gymharu â £43.1 miliwn y llynedd.

Cafwyd cynnydd o 11.4% mewn incwm net o £205.2 miliwn y llynedd i £228.7 miliwn eleni, gyda'r gostyngiadau mewn incwm grant y Cyngor Cyllido yn llai na'r cynnydd mewn incwm ymchwil cyffredinol a ffioedd academaidd ychwanegol.

Cynyddodd y gwariant o £198.0 miliwn i £209.4 miliwn, gyda'r prif gynnydd mewn costau staff. Mae gohirio gwariant o 2014-15 tan 2015-16 wedi cael effaith ffafriol ar berfformiad ariannol ar gyfer y flwyddyn. Rhagwelir effaith negyddol yn 2015-16.

### INCWM


Cafwyd cynnydd o £18.3 miliwn (32.6%) mewn ffioedd academaidd myfyrwyr amser llawn cartref ac o'r Undeb Ewropeaidd, gan adlewyrchu'r newid o incwm Cyngor Cyllido i incwm ffioedd dysgu. Gwrthbwywyd y cynnydd o ran incwm ffioedd dysgu gan wariant o £5.6 miliwn i greu bwrsariaethau, a oedd yn ofyniad yn y Cynllun Ffioedd.

Cafwyd cynnydd o £6.3 miliwn (26.4%) ffioedd academaidd myfyrwyr rhyngwladol amser llawn o ganlyniad i'r myfyrwyr ychwanegol a recriwtiwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

Bu gostyngiad o £6.5 miliwn (28.5%) mewn grantiau o'r Cyngor Cyllido ar gyfer ariannu cylchol.

Ceir crynodeb o'r ffrydiau incwm allweddol isod:


- A** Grantiau Cyngorau Cyllido
- B** Ffioedd dysgu a chontractau addysg
- C** Grantiau a chontractau ymchwil
- D** Incwm arall (gan gynnwys incwm o waddolion a buddsoddiadau)



## YMCHWIL

Incwm ymchwil yn ystod y flwyddyn oedd £48.2 miliwn, cynnydd o £5.1 miliwn (11.8%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae incwm ymchwil llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cynyddu yn 2015 o ganlyniad i gynnwys un derbyniad am Gredyd Gwariant Ymchwil a Datblygu ar gyfer

blynyddoedd ariannol 2013/2014/2015, yn gyfanswm o £4.1 miliwn. Oherwydd lefel y grantiau a'r contractau a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn (ac yn y blynyddoedd blaenorol), disgwylir y bydd incwm grantiau'n parhau i godi o 2014-15 ymlaen.




## CYMYNRODDION A RHODDION

Yn ystod y flwyddyn derbyniodd y Brifysgol nifer o roddion a chymynroddion, gan gynnwys cyfraniadau tuag at ysgoloriaethau a'r Brifysgol yn gyffredinol.

## GWARIANT

Ceir crynodeb o'r ffrydiau gwariant allweddol isod:



- A** Adrannau academaidd
- B** Academic services
- C** Gwasanaethau academaidd
- D** Preswylfeydd, arlwyo a chynadledda
- E** Adeiladau
- F** Gwasanaethau proffesiynol
- G** Gwasanaethau eraill a ddarparwyd a gweithgareddau eraill

## LLIF ARIAN

Roedd gan y Brifysgol fewnlif arian net o £24.7 miliwn o weithgareddau gweithredu o'i gymharu â £26.2 miliwn yn y flwyddyn flaenorol; y prif resymau yw'r gostyngiadau mewn grantiau a dderbyniwyd ymlaen llaw a dyledwyr masnach, yn ogystal â chynnydd mewn credydwyr masnach. Rheolir adneuron tymor -byr y Brifysgol gan gwmni Royal London Group, ac mae'r Is-Bwyllgor Buddsoddi yn monitro perfformiad y cwmni yn ôl meincnodau a bennwyd ymlaen llaw. Yn unol â Pholisi Rheoli Trysorfa'r Brifysgol, yr amcan buddsoddi yw sicrhau'r elw gorau posib wrth gadw risg i isafswm. Ar 31 Gorffennaf 2015, roedd y Brifysgol yn dal adneuron tymor -byr/arian parod o £52.4 miliwn ac £1.4 miliwn pellach ar ran cronfeydd gwaddol.

Disgwylir i'r gwargedau hyn leihau yn ystod y blynyddoedd nesaf wrth i'r Brifysgol gwblhau ei rhaglen datblygu cyfalaf.

Roedd y Brifysgol yn dal arian parod/adneuron tymor -byr ar 31 Gorffennaf 2015 a oedd yn cyfateb i 91 diwrnod o wariant (heb gynnwys dibrisio), y gellir ei gymharu â'r targed a osodwyd gan y Brifysgol o wariant 35 diwrnod.

Un newid allweddol o ran llif arian y Brifysgol yw'r benthycu ychwanegol ar gyfer prynu ac adeiladu asedau sefydlog. Benthyciwyd £20 miliwn yn ychwanegol yn ystod y flwyddyn, gan godi'r cyfanswm i £52 miliwn.

Polisi'r Brifysgol yw ceisio'r telerau talu gorau posib ar gyfer ei holl drafodion busnes. Yn ystod y flwyddyn roedd y cyfnod a gymerai'r Brifysgol i setlo gyda chredydwyr masnach yn 35 diwrnod ar gyfartaledd (2013-14: 36 diwrnod).

## MANTOLEN

Ar y cyfan cafwyd cynnydd o £114.0 miliwn mewn asedau net y llynedd, i £157.0 miliwn.

Roedd y prif newidiadau yng nghategoriâu'r fantolen fel a ganlyn:

- Mae asedau sefydlog diriaethol wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn o £165.0 miliwn i £224.6 miliwn o ganlyniad i ychwanegiadau o £69.1 miliwn fod yn uwch na'r dibrisiant o £9.6 miliwn. Roedd £65.6 miliwn o'r cynnydd yn ymwneud â thir ac adeiladau. Mae cyfanswm o £129.5 miliwn yn ymwneud ag adeiladu Campws newydd y Bae, ac nid yw hyn yn cael ei ddibrisio eto.
- Cafwyd cynnydd o £8.2 miliwn yn adneuo tymor -byr ac arian parod.
- Cafwyd cynnydd o £19.7 miliwn mewn benthyciadau banc o ganlyniad i'r cyllid yr oedd ei angen ar gyfer y gwariant cyfalaf ar adeiladu Campws y Bae.

## PENSIYNAU

Y ddau brif gynllun pensiwn ar gyfer staff y Brifysgol yw Cynllun Blwydd-daliadau'r Prifysgolion (USS) a Chynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS). Delir asedau'r ddau gynllun mewn cronfeydd a weinyddir gan ymddiriedolwyr.

Gwelwyd gostyngiad yn y diffyg pensiwn yng nghynllun SUPS (yn ôl mesur Safon Adrodd Ariannol 17), o £42.5 miliwn i £42.3 miliwn. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd actiwaraid, a gydnabuwyd yn y datganiad o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig, o £0.3 miliwn.

O 1 Ionawr 2012 roedd y cynllun SUPS ar gau i aelodau newydd. Bellach, gwahoddir staff y rhoddyd yr opsiwn iddynt ymuno â'r cynllun SUPS yn flaenorol i ymuno â chynllun cyfraniad diffiniedig a weithredir gan NEST (Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol). Mae'r gweithwyr a'r cyflogwyr yn cyfrannu at y Cynllun i adeiladu buddion pensiwn.

Mae cynllun yr USS yn gynllun aml-gyflogwr, ac am na all y Brifysgol nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol, caiff y cynllun ei drin fel cynllun cyfraniadau diffiniedig, lle caiff cyfraniadau eu codi fel maent yn digwydd.

Mae hyfywedd ariannol hirdymor y cynlluniau yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys newidiadau i broffil oedran aelodau'r cynlluniau, cyfraddau llog, gwerth y buddsoddiadau

a'r buddion a gynigir gan y cynlluniau. Bydd y Brifysgol yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol y cynlluniau, ynghyd â'r effaith bosib ar y datganiadau ariannol.

## CRONFEYDD WRTH GEFN

Roedd cronfeydd wrth gefn cyfrif incwm a gwariant y Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2015, heb gynnwys y rhwymedigaeth bensiw, yn £82.2 miliwn, o'i gymharu â £63.8 miliwn ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Mae'r Brifysgol yn ymroddedig i symud i safle lle mae'n cynhyrchu gwargedau sylweddol yn y tymor canolog er mwyn cynyddu'i chronfeydd wrth gefn.

Ar ôl ystyried y rhwymedigaeth bensiw y cyfeiriwyd ati uchod, a'r gronfa ailbrisio, roedd gan y Brifysgol gronfa wrth gefn o £40.8 miliwn ar 31 Gorffennaf 2015, o'i gymharu â £22.1 miliwn ar 31 Gorffennaf 2014.

## HYLIFEDD

Mae'r Brifysgol wedi cynyddu'r swm y mae'n ei fenthyca oherwydd adeiladu Campws y Bae, sydd wedi cynyddu'r gymhareb gerio isel flaenorol. Caiff y fantolen ei phrisio ar sail cost hanesyddol, felly nid yw'n ystyried gwerth sylfaenol yr asedau ar y farchnad, sy'n fwy na £200 miliwn.

## RHEOLAETH ARIANNOL

Mae rheolaeth ariannol y Brifysgol yn dod yn fwy cymhleth o ganlyniad i'r trefniadau cyllido ac ariannu. O ganlyniad i ddulliau ariannu newydd, megis y benthyciad o EIB, yn ogystal â derbyniadau sylweddol mewn Ewros a'r posibilrwydd o drefniant credyd tymor -byr, mae'r Brifysgol yn rhoi mwy o sylw i reolaeth ariannol, ac yn arbennig i reoli'r llif arian.

## CRYFDER ARIANNOL

Mae'r Brifysgol yn defnyddio nifer o fesurau i fonitro ei chryfder ariannol. Mae rhai o'r dangosyddion perfformiad allweddol hyn i'w gweld isod:


	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15
<b>Incwm net (£m)</b>	158.9	172.5	178.3	181.8	205.2	228.7
<b>EBITDA</b>	11.5	14.0	9.5	8.4	13.5	19.6
<b>Gwarged (£m)</b>	7.7	7.9	5.4	3.7	7.2	18.3
<b>Gwarged fel % o'r incwm</b>	4.8%	4.6%	3.0%	2.0%	3.5%	8.0%
<b>Twf mewn incwm</b>	5.7%	8.6%	3.3%	1.9%	12.9%	11.4%

(EBITDA – Enillion cyn Llog, Trethiad, Dibrisiant ac Amorteiddiad).


*Gwarged fel canran o'r incwm*

Mae hyn yn amlygu perfformiad y Brifysgol o ran ei gallu i fuddsoddi mewn adeiladu capasiti yn y dyfodol.

Mae gohirio gwariant o 2014-15 tan 2015-16 wedi cael effaith ffafriol ar berfformiad ariannol ar gyfer y flwyddyn. Rhagwelir effaith negyddol gyfatebol ar wargedau'r flwyddyn nesaf. Nid oes effaith ar y rhagolygon hirdymor fel arall.


*Hylifedd – Diwrnodau o asedau net o gymharu â gwariant (ac eithrio gwariant nad yw'n arian parod)*

Mae hyn yn mesur hylifedd y Brifysgol, ac yn amlygu ei gallu i ariannu ei gweithgareddau.




**Benthyciadau – Benthyciadau fel canran o incwm**

Mae hyn yn mesur cymhareb fenthycia allanol y Brifysgol o'i chymharu â chyfanswm incwm y sefydliad, ac yn amlgu cryfder ei hincwm o'i gymharu â'i dibyniaeth ar ddyled allanol.



**Costau Staff – Costau Staff fel canran o incwm**

Mae hyn yn mesur iechyd ariannol y Brifysgol ac yn dangos pa ganran o incwm sy'n cael ei gwario ar gostau staff.



**ARGOEL**

Mae'r Brifysgol yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol yn ei hystâd, a bydd hynny'n dominyddu ei sefyllfa ariannol dros y ddeng mlynedd nesaf. Mae'n gwneud hynny yn ystod cyfnod o gryn ansicrwydd o ran lefel y cyllid a fydd ar gael i'r sector mewn blynyddoedd i ddod. Bydd datblygiad Prifysgol Abertawe yn creu ased trawsnewidiol ar gyfer Rhanbarth Bae Abertawe, yn ogystal â Chymru gyfan.

O ystyried y cefndir economaidd ehangach, mae cyfnodau heriol o'n blaenau. Er hynny, gyda rheolaeth gref a gweithlu cryf mae'r Brifysgol yn hyderus y bydd yn gwneud cynnydd llwyddiannus yn ei chynlluniau strategol ac wrth gyflawni ei hamcanion. Mae twf cryf y Brifysgol yn ddiweddar, a'i safle gwell yn nhablau cynghrair y sector, yn golygu bod y Brifysgol mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau hyn.

## LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Darperir y datganiad a ganlyn i alluogi i ddarllenwyr adroddiad a chyfrifon blynyddol y Brifysgol ddeall y strwythur llywodraethu a chyfreithiol yn well. Mae'r adroddiad hwn yn delio â'r flwyddyn ariannol lawn a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiadau Ariannol.

Mae'r Brifysgol yn gorfforaeth annibynnol, y mae ei statws cyfreithiol yn deillio o Siarter Brenhinol a roddwyd yn wreiddiol ym 1920. Mae ei nodau, ei phwerau a'i fframwaith llywodraethu wedi'u hamlinellu yn y Siarter Atodol a'i Statudau cefnogol, y cymeradwywyd y diwygiadau diweddaraf iddynt gan y Cyfrin Gyngor yn 2007. Cofrestrodd y Brifysgol fel elusen yn 2010 gyda'r rhif cofrestru 1138342.

Mae'r Siarter a'r Statudau'n mynnu bod gan y Brifysgol dri chorff ar wahân, pob un â swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, i oruchwylio a rheoli ei gweithgareddau:

- **Y Cyngor** i'w'r corff llywodraethu sy'n gyfrifol am gyllid, eiddo, buddsoddiadau a busnes cyffredinol y Brifysgol, ac am osod cyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad.

Ymdrecha'r Cyngor i gynnal ei fusnes yn unol â'r saith egwyddor a nodir gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (anhunanoldeb, ymdebyddiaeth, gwrthrychedd, atebolrwydd, agoredrwydd, gonestrywydd ac arweinyddiaeth), ac yn unol â'r arweiniad i brifysgolion gan y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol yn ei Gôd Llywodraethu Addysg Uwch a gyhoeddwyd fis Rhagfyr 2014 a ddisodlodd y Côd Ymarfer Llywodraethu blaenorol a ymgorfforwyd yn yr Arweiniad i Aelodau Cyfrif Llywodraethu Addysg Uwch yn y DU.

O ran y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2015, gall y Cyngor adrodd: (i) nid oedd unrhyw elfen o'r Côd Ymarfer Llywodraethu nad oedd ymarfer y Brifysgol yn gyson â hi a (ii) y cytunwyd ar Gynllun Gweithredu i sicrhau aliniad dangosadwy a llawn â'r Côd Addysg Uwch newydd, y mae proses ei weithredu yn mynd rhagddi.

Mae'r Brifysgol yn adolygu effeithiolrwydd y Cyngor yn rheolaidd, a chynhaliwyd yr adolygiad allanol cyntaf yn 2012. Daeth yr adolygiad allanol hwn i'r casgliad bod y Cyngor yn cynnal ei ddyletswyddau'n briodol ac yn effeithiol fel corff llywodraethu'r Brifysgol. Mae copi o adroddiad llawn yr adolygiad ar gael ar wefan y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn ymroddedig i'r safonau uchaf o ran agoredrwydd, cywirdeb ac atebolrwydd, a cheisia gynnal ei thrafodion yn gyfrifol ac mae ganddi Bolisi Datgelu Er Lles y

Cyhoedd i alluogi i staff, myfyrwyr ac aelodau eraill y Brifysgol fynegi unrhyw bryderon sydd o ddiddordeb cyhoeddus.

Daw'r mwyafrif o aelodau'r o'r tu allan i'r Brifysgol (a ddisgrifir fel aelodau lleyg), a rhaid dewis y Cadeirydd o'u plith. Mae'r aelodaeth hefyd yn cynnwys staff a myfyrwyr. Nid oes unrhyw un o'r aelodau lleyg yn derbyn tâl ar wahân i ad-dalu treuliau am waith ar ran y Brifysgol.

Mae manylion cyfrifoldebau'r Cyngor wedi'u hadlewyrchu yn yr adran 'Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor.'

- **Y Senedd** yw awdurdod academiaidd y Brifysgol. Daw aelodau'r Senedd o bliith staff academiaidd a myfyrwyr y sefydliad. Ei rôl yw cyfarwyddo a rheoleiddio gwaith dysgu ac ymchwil y Brifysgol.
- **Mae'r Llys** yn gorff mawr, ffurfiol. Cynigia ffyrdd i'r rhanddeiliaid ehangach a wasanaethir gan y Brifysgol gysylltu â'r sefydliad, ac mae'n darparu fforwm cyhoeddus er mwyn i aelodau'r Llys godi unrhyw fater ynghylch y Brifysgol. Mae'r Llys fel arfer yn cwrdd unwaith y flwyddyn i dderbyn adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol y Brifysgol wedi'u harchwilio.

Bydd y rhan fwyaf o aelodau'r Llys o'r tu allan i'r Brifysgol, gan gynnwys ymgyddion gymuned leol a chyfrifolwyr eraill sydd â diddordeb yng ngwaith y Brifysgol. Mae'r aelodaeth hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr staff y Brifysgol (academaidd a staff eraill) a'r myfyrwyr.

Yr Is-ganghellor yw prif weithredwr a phrif swyddog academiaidd a gweinyddol y Brifysgol. Mae'n gyffredinol gyfrifol i'r Cyngor am gynnal a hyrwyddo effeithlonrwydd a threfn y Brifysgol. Yn unol â thelerau'r memorandwm ariannol ffurfiol rhwng y Brifysgol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yr Is-ganghellor yw swyddog cyfrifyddu'r Brifysgol, ac yn rhinwedd y swydd honno gellir ei wysio i ymddangos gerbron Pwyllgor Archwilio Llywodraeth Cymru.

Er bod y Cyngor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith bob blwyddyn academiaidd, pwyllgorau sy'n gwneud llawer o'i waith manwl i ddechrau, ac yn arbennig y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Polisi Adnoddau Dynol, y Pwyllgor Enwebiadau, y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a'r Pwyllgor Archwilio.

Disgrifir rôl y pwyllgorau hyn isod:

- **Cyllid**

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cynghori'r Cyngor ar oblygiadau ariannol cynlluniau strategol a phrosiectau mawr ac yn cymeradwyo cyllidebau gweithredu manwl i'w cyflwyno i'r Cyngor. Yn ogystal â hyn mae'r Pwyllgor yn monitro'r perfformiad ariannol yn erbyn y gyllideb yn barhaus ac yn cynghori'r Cyngor ar oblygiadau ariannu cynlluniau cyfalaf.

- **Adnoddau Dynol**

Mae'r Pwyllgor Polisi Adnoddau Dynol yn cynghori'r Cyngor ar bolisiau sy'n gysylltiedig ag adnoddau dynol y Brifysgol yng nghyd-destun strategaeth y Brifysgol, newidiadau deddfwriaethol ac arfer cyflogaeth da.

- **Enwebiadau**

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau'n helpu i sicrhau bod strwythur pwyllgorau'r Brifysgol yn parhau'n "addas i'r diben" ac yn gweithredu'n effeithiol. Ar ran y Cyngor mae'n rheoli newidiadau i gyfansoddiadau, aelodaeth a chylch gorchwyl y pwyllgorau a sefydlir gan y Cyngor. Mae hefyd yn gwneud argymhellion i'r Cyngor ar gyfer penodi swyddogion lleig y Brifysgol ac ar gyfer cyfethol i'r Cyngor.

- **Cydnabyddiaeth Ariannol**

Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol sy'n penderfynu ar daliadau blynyddol yr Is-ganghellor, y staff athrawol a staff gweinyddol uwch.

- **Archwilio**

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, gan gynnwys unwaith gyda'r archwilwyr allanol i drafod canlyniadau'r archwiliad ac i adolygu datganiadau ariannol a pholisiau cyfrifyddu'r Brifysgol. Mae'r Pwyllgor yn cwrdd â'r archwilwyr mewnol i ystyried adolygu systemau rheoli mewnol ac i ymdrin ag argymhellion ar gyfer gwella'r cyfryw systemau. Mae hefyd yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan y Cyngor Cyllido am eu bod yn effeithio ar fusnes y Brifysgol, ac yn monitro ymlyniad wrth ofynion rheoleiddio.

Mae'r holl bwyllgorau hyn wedi'u cyfansoddi'n ffurfiol gyda chylch gorchwyl ac aelodaeth sy'n cynnwys aelodau lleig y Cyngor. Cadeirir pob pwyllgor gan aelod lleig o'r Cyngor. Yn achos y Pwyllgor Archwilio, mae'r holl aelodau'n annibynnol o reolaeth y Brifysgol, ond mae uwch weithredwyr yn mynd i gyfarfodydd yn ôl yr angen.

Fel prif weithredwr y Brifysgol, mae gan yr Is-ganghellor ddylanwad sylweddol o ran datblygu strategaeth y sefydliad, nodi a chynllunio datblygiadau newydd, a rhoi cyfeiriad i ethos y sefydliad. Mae'r Dirprwy Is-ganghellorion a'r uwch swyddogion proffesiynol i gyd yn cyfrannu mewn ffyrdd amrywiol at yr agweddau hyn ar y gwaith, ond erys yr awdurdod pennaf gyda'r Cyngor.

Mae'r Brifysgol yn cadw cofrestr o fuddiannau aelodau'r Cyngor a'r uwch swyddogion, a gellir gweld y gofrestr drwy drefniant â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Llywodraethu.

Mae rôl Ysgrifennydd y Cyngor wedi'i diffinio yn neddiadau'r Brifysgol. Mae Ysgrifennydd y Cyngor hefyd yn gweithredu fel Ysgrifennydd rhai o Bwyllgorau'r Cyngor.



## DATGANIADAU ARIANNOL

### Cynnwys

24	Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor
26	Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Gyngor Prifysgol Abertawe
28	Datganiad O'r Polisiâu Cyfrifyddu Pennaf
31	Cyfrif Incwm a Gwariant
32	Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig
33	Mantolen
34	Datganiad Llif Arian

### Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

#### Tudalen Nodyn Cynnwys

35	<b>1.</b>	Grantiau Corff Ariannu
35	<b>2.</b>	Ffioedd dysgu a chontractau addysg
35	<b>3.</b>	Grantiau a chontractau ymchwil
36	<b>4.</b>	Incwm arall
36	<b>5.</b>	Incwm o waddolion a buddsoddiadau
36	<b>6.</b>	Costau staff
37	<b>7.</b>	Treuliau gweithredu eraill
38	<b>8.</b>	Llog a chostau ariannol eraill
38	<b>9.</b>	Dadansoddiad o wariant yn ôl gweithgarwch
38	<b>10.</b>	Treth gyfredol
39	<b>11.</b>	Asedau diriaethol
39	<b>12.</b>	Buddsoddiadau
39	<b>13.</b>	Buddsoddi mewn cyd-fentrau
40	<b>14.</b>	Asedau gwaddol
40	<b>15.</b>	Dyledwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn
40	<b>16.</b>	Dyledwyr: symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn
40	<b>17.</b>	Adneuron tymor byr
40	<b>18.</b>	Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn
41	<b>19.</b>	Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn
41	<b>20.</b>	Grantiau cyfalaf gohiriedig
42	<b>21.</b>	Gwaddolion
42	<b>22.</b>	Cronfeydd wrth gefn
43	<b>23.</b>	Cysoni gwarged i'r llif arian net o weithgareddau gweithredu
43	<b>24.</b>	Adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu ariannu
43	<b>25.</b>	Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol
43	<b>26.</b>	Rheoli adnoddau hylifol
43	<b>27.</b>	Ariann
44	<b>28.</b>	Dadansoddiad o newidiadau mewn cronfeydd net
44	<b>29.</b>	Cynlluniau pensiwn
49	<b>30.</b>	Ymrwymadau ariannol
49	<b>31.</b>	Ymrwymadau cyfalaf
49	<b>32.</b>	Rhwymedigaethau amodol
50	<b>33.</b>	Ttrafodion parti perthynol
50	<b>34.</b>	Cronfeydd ariannol wrth gefn
50	<b>35.</b>	Bwrsariaethau
51	<b>36.</b>	Isgwmniau, Mentrau Cyswllt, a Chyd-fentrau
52	<b>37.</b>	Digwyddiadau Wedi Llunio'r Fantole

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR

### CYFLWYNIAD

**Yn unol â Siarter Ymgorffori'r Brifysgol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu a rheoli trafodion y Brifysgol, gan gynnwys sicrhau system rheoli mewnol effeithiol, ac mae'n ofynnol iddo gyflwyno datganiadau ariannol wedi'u harchwilio ar gyfer pob blwyddyn ariannol.**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol y Brifysgol yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg. Mae hefyd yn gyfrifol am alluogi i'r Brifysgol sicrhau y caiff y datganiadau ariannol eu paratoi yn unol â Siarter Corffori'r Brifysgol; y Cyfarwyddiadau Cyfrifon a gyhoeddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW); y Datganiad o Arfer Argymelledig ar Gyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch; a safonau cyfrifyddu perthnasol eraill. Yn ogystal â hyn, o fewn telerau ac amodau Memorandwm Ariannol y cytunir arno rhwng Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor y Brifysgol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, drwy ei ddeiliad swydd dynodedig, i baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o gyflwr trafodion y Brifysgol ac o'r gwarged neu ddifffyg neu lifoedd arian ar gyfer y flwyddyn honno.

**Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyngor wedi sicrhau'r canlynol:**

- bod polisiau cyfrifyddu addas yn cael eu dewis a'u cymhwyso'n gyson;
- deuir i farn a llunir amcangyfrifon mewn modd rhesymol a darbodus;
- bod safonau cyfrifyddu cymwys wedi'u dilyn, yn amodol ar ddatgelu ac egluro unrhyw yriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- bod datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar sail busnes byw, onid yw'n amhriodol tybio y bydd y Brifysgol yn parhau i weithredu.

Mae'r Cyngor yn fodlon bod gan y Brifysgol adnoddau digonol i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld; gan hynny mae'r sail busnes gweithredol yn parhau i gael ei mabwysiadu wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

**Mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhesymol i:**

- sicrhau mai dim ond at y dibenion y cafodd yr arian ei roi y defnyddir arian gan HEFCW, a hynny yn unol â'r Memorandwm Ariannol â'r Cyngor Cyllido ac unrhyw amodau eraill y bydd y Cyngor Cyllido yn eu gosod o bryd i'w gilydd;

- sicrhau bod rheolaethau ariannol a rheolaethau rheoli priodol ar waith i ddiogelu arian cyhoeddus ac arian o ffynonellau eraill;
- diogelu asedau'r Brifysgol ac atal a datgelu twyll;
- sicrhau y caiff adnoddau a gwariant y Brifysgol eu rheoli'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae elfennau allweddol system rheoli mewnol y Brifysgol, a ddylunir i weithredu'r cyfrifoldebau a ddisgrifir uchod, yn cynnwys y canlynol:

- diffiniadau clir o gyfrifoldebau penaethiaid adrannau gwasanaethau academaidd a phroffesiynol a'r awdurdod a ddirprwywyd iddynt;
- proses gynllunio gynhwysfawr tymor- byr a thymor canolig, wedi'i hategu gan gyllidebau incwm, gwariant, cyfalaf a llif arian manwl;
- adolygiadau rheolaidd o'r canlyniadau ariannol gan gynnwys adrodd ar amrywiannau a rhoi diweddariadau ar y rhagolygon ar gyfer diwedd y flwyddyn;
- bod gofynion wedi'u diffinio a'u ffurfioli'n glir ar gyfer cymeradwyo a rheoli gwariant, a bod penderfyniadau buddsoddi sylweddol yn ymwneud â gwariant cyfalaf neu refeniw yn amodol ar arfarniad ffurfiol ac adolygiad manwl gan y Pwyllgor Cyllid;
- rheoliadau ariannol cynhwysfawr, yn manylu ar y gweithdrefnau a'r rheolaethau ariannol, wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid;
- gwasanaeth Archwilio Mewnol proffesiynol y mae ei raglen flynyddol wedi'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio. Fel rhan o hynny, mae pennaeth y gwasanaeth yn rhoi adroddiad i'r Cyngor ar weithgarwch archwilio mewnol yn y Brifysgol ac yn cyflwyno ei farn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheoli mewnol y Brifysgol, gan gynnwys rheoli ariannol mewnol.

Mae elfennau allweddol system adnabod a rheoli risg y Brifysgol, a ddylunnir i weithredu'r cyfrifoldebau a ddisgrifir uchod, yn cynnwys y canlynol:

- cysylltu'r gwaith o nodi a rheoli risg â'r nod o gyflawni amcanion y sefydliad drwy'r broses gynllunio flynyddol;
- gwerthuso'r tebygolrwydd y daw risgiau yn realiti, a'r effaith y cânt, fel rhan o'r un broses honno a sefydlu rheolaethau – lliniaru;
- bod â gweithdrefnau adolygu sy'n cwmpasu risgiau busnes, risgiau gweithredol, risgiau cydymffurfio a risgiau ariannol;
- ymgorffori asesiad risg a phrosesau rheoli mewnol yng ngweithrediadau parhaus yr holl unedau;
- adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio, ac yna i'r Cyngor, ar reoli mewnol a risg;
- adrodd yn flynyddol i'r Cyngor ar brif ganlyniadau'r gwaith o nodi risgiau, eu gwerthuso a'u hadolygu gan y rheolwyr.

Fodd bynnag, ni all unrhyw system rheoli mewnol ond darparu hyder rhesymol, nid cyfannol, yn erbyn camddatgan neu golled faterol.

Mae'r Cyngor wedi adolygu'r risgiau allweddol y mae'r Brifysgol yn agored iddynt ynghyd â'r mesurau rheoli gweithredol, ariannol a chydymffurfio a roddwyd ar waith i liniaru'r risgiau hyn. Mae'r Cyngor o'r farn bod proses barhaus ffurfiol yn bodoli ar gyfer adnabod, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol y Brifysgol sydd wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2015 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Adolygir y broses hon yn rheolaidd gan y Cyngor.

## ADRODDIAD YR ARCHWILWYR I GYNGOR PRIFYSGOL ABERTAWWE

### EIN BARN

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol, a ddiffinir isod:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr y grŵp a'r rhiant sefydliad ar 31 Gorffennaf 2015, ac o'r incwm a'r gwariant, enillion a cholledion cydnabyddedig a llif arian, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu Cyffredin y Deyrnas Unedig;
- wedi eu paratoi'n gywir yn unol â gofynion y Datganiad o Arferion a Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch; a
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Adran 144 Deddf Elusennau 2011 a Rheoliad 14 Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008.

Dylid darllen y farn hon yng nghyd-destun yr hyn a ddywedwn yng ngweddill yr adroddiad hwn.

### YR HYN A ARCHWILIWYD GENNYM

Mae'r datganiadau ariannol a baratoir gan Brifysgol Abertawe'n cynnwys:

- y Fantolen ar 31 Gorffennaf 2015;
- y Cyfrif Incwm a Gwariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- y Datganiad o'r Cyfanswm o Enillion a Cholledion Cydnabyddedig am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- y Datganiad Llif Arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- y Polisiâu Cyfrifyddu; ac
- y nodiadau i'r datganiadau ariannol, sy'n cynnwys gwybodaeth eglurhaol arall.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r Datganiad Arfer a Argymhellir ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch, gan ymgorffori Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig.

Wrth gymhwyso'r fframwaith adrodd ariannol, mae'r Corff Llywodraethu/Cyngor wedi gwneud nifer o benderfyniadau goddrychol, er enghraifft o ran amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol. Wrth wneud y fath amcangyfrifon, mae wedi gwneud rhagdybiaethau ac wedi ystyried digwyddiadau'r dyfodol.

### BETH SYDD YNGHLWM WRTH ARCHWILIAD O'R DATGANIADAU ARIANNOL

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae archwiliad yn cynnwys casglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i raddau digonol i roi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu drwy gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol:

- a yw'r polisiâu cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r grŵp a'r rhiant sefydliad ac wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol;
- pa mor resymol yw amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Cyngor; a
- y modd cyffredinol y cyflwynwyd y datganiadau ariannol.

Yn ogystal, darllenasom yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adolygiad Gweithredol ac Ariannol a'r Datganiadau Ariannol i nodi unrhyw anghysondeb perthnasol â'r datganiadau ariannol wedi'u harchwilio, ac i nodi unrhyw wybodaeth sydd, ymddengys, yn sylweddol anghywir yn seiliedig ar, neu'n anghyson ag, yr wybodaeth a gasglwyd gennym wrth gynnal yr archwiliad. Os daw'n amlwg neu os ymddengys i ni fod camddatganiadau neu anghysondebau perthnasol, byddwn yn ystyried goblygiadau hynny i'n hadroddiad.

### BARN AR FATERION ERAILL A RAGNODIR YNG NGHOD YMARFER ARCHWILIO'R CYNGOR CYLLIDO, A GYHOEDDWDYD O DAN DDEDDF ADDYSG BELLACH AC UWCH 1992

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae'r arian a weinyddir gan y Sefydliad at ddibenion penodol, o ba ffynhonnell bynnag y daeth, wedi'i ddefnyddio'n briodol at y dibenion ac wedi ei reoli yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac unrhyw delerau ac amodau eraill sydd ynghlwm wrtho;
- mae incwm wedi'i ddefnyddio yn unol â statudau'r sefydliad; a
- mae arian a ddarparwyd gan y Cyngor Cyllido wedi ei ddefnyddio yn unol â'r memorandwm ariannol ac unrhyw delerau ac amodau eraill sydd ynghlwm wrthynt.

## MATERION ERAILL Y MAE'N OFYNNOL I NI ADRODD ARNYNT TRWY EITHRIAD

### DIGONOLRWYDD Y COFNODION CYFRIFYDDU A'R WYBODAETH A'R ESBONIADAU A DDERBYNIWYD

Dan Ddeddf Elusennau 2011 mae'n ofynnol i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- nad yw'r sefydliad rhiant wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw datganiadau ariannol y rhiant sefydliad yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym yr un eithriad i'w adrodd yn codi o'r cyfrifoldeb hwn.

### GWYBODAETH ARALL YN YR ADRODDIAD BLYNYDDOL

Yn unol â Deddf Elusennau 2011, mae'n ofynnol ein bod yn cyflwyno adroddiad i chi os, yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn anghyson mewn unrhyw agwedd berthnasol â'r datganiadau ariannol. Nid oes gennym yr un eithriad i'w adrodd yn codi o'r cyfrifoldeb hwn.

### RHEOLAETH FEWNOL

Yn unol â Chôd Ymarfer HEFCW a gyhoeddwyd yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 mae'n ofynnol ein bod yn adrodd i chi os, yn ein barn ni, mae'r datganiad rheolaeth fewnol [a gynhwysir fel rhan o'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol] yn anghyson â'n gwybodaeth am y rhiant sefydliad a'r grŵp. Nid oes gennym yr un eithriad i'w adrodd yn codi o'r cyfrifoldeb hwn.

### CYFRIFOLDEB AM Y DATGANIADAU ARIANNOL A'R ARCHWILIAD

#### EIN CYFRIFOLDEBAU NI A CHYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a nodir ar dudalen 24, mae'r Cyngor (sydd hefyd yn ymddiriedolwyr at ddibenion cyfraith elusennau) yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol a mynegi barn arnynt yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei wneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

Mae'r adroddiad hwn, gan gynnwys y sylwadau, wedi'i baratoi ar gyfer Cyngor y sefydliad, a Chyngor y sefydliad yn unig, fel corff yn unol â Siarteri a Statudau'r sefydliad ac adran 144 Deddf Elusennau 2011 a'r rheoliadau a wnaed dan adran 154 y Ddeddf honno (Rheoliad 30 o Reoliadau'r Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008) ac nid at unrhyw ddibenion eraill. Nid ydym, wrth roi'r farn hon, yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am ei ddefnyddio at ddiben arall nac am ddangos na rhoi'r adroddiad hwn i neb arall ac eithrio lle rydym wedi cytuno yn benodol i hynny drwy roi caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

PricewaterhouseCoopers PAC  
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol  
Abertawe

Mae PricewaterhouseCoopers LLP yn gymwys i weithredu, ac wedi'i benodi, fel archwiliwr dan adran 144(2) Deddf Elusennau 2011.

- Cyfrifoldeb y cyfarwyddwyr yw cynnal gwefan Prifysgol Abertawe a sicrhau ei chywirdeb; nid yw gwaith yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn, ac felly nid yw'r archwilwyr yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a wnaed i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno ar y wefan yn y man cyntaf.
- Fe allai deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â pharatoi a dosbarthu'r datganiadau ariannol fod yn wahanol i deddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

## DATGANIAD O'R POLISIÂU CYFRIFYDDU PENNAF

### CWMPAS Y DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r datganiadau ariannol a gyflwynwyd i'r Cyngor wedi cael eu paratoi'n unol ag argymhellion y Datganiad o Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2007, Safonau Cyfrifyddu perthnasol yn y Deyrnas Unedig a'r Cyfarwyddiadau Cyfrifon a gyhoeddir gan CCAUC.

Mae'r Adolygiad Gweithredol ac Ariannol wedi cael ei baratoi gan gyfeirio at Ddatganiad Adrodd y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu: "Yr Adolygiad Gweithredol ac Ariannol" a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2006.

### SAIL BARATOI

Paratoi y datganiadau ariannol yn unol â'r confensiwn costau hanesyddol wedi'i addasu gan ailbriso asedau sefydlog penodol, ac ar sail busnes gweithredol. Mae'r Prif Bolisiau Cyfrifyddu wedi'u defnyddio'n gyson trwy gydol y flwyddyn.

### SAIL GYFUNO

Mae'r datganiadau ariannol cyfunedig ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2015 yn cynnwys y Brifysgol a'r holl is-gwmnïau pan fydd canlyniadau, asedau a rhwymedigaethau (wedi'u hystyried ar y cyd ar gyfer yr holl fusnesau) o werth materol mewn perthynas â Datganiadau Ariannol y Brifysgol.

Yn ogystal â hyn mae'r cyfrifon cyfunedig yn cynnwys canlyniadau Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe.

Mae'r cwmni hwn yn eiddo ar y cyd ar sail 50/50 i'r Brifysgol a Dinas a Sir Abertawe ac mae'n gweithredu Pwll Cenedlaethol Cymru. Gan fod y cwmni hwn yn eiddo i'r ddau bartner uchod ac wedi'i reoli ganddynt, cyfrifir amdano ar sail cyd-fenter.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunedig yn cynnwys Undeb y Myfyrwyr gan nad yw'r Brifysgol yn rheoli'r gweithgarwch hwn.

### CYDNABOD INCWM

Cyfrifir am grantiau gan gyrrif ariannu yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

Datganir incwm ffioedd yn gryswth ac fe'i credydir i'r cyfrif incwm a gwariant dros y cyfnod y mae myfyrwyr yn astudio. Pan fydd swm y ffi addysgu wedi'i ostwng gan ddisgownt ar gyfer talu'n brydlon, dangosir yr incwm a dderbynnir net o'r disgownt. Cyfrifir am fwrsariaethau ac ysgoloriaethau'n gryswth fel gwariant ac nid ydynt wedi'u diddymu o incwm.

Cyfrifir am incwm cylchol o grantiau, contractau a gwasanaethau eraill a ddarparwyd ar sail croniadau ac mae wedi'i gynnwys i'r graddau y cwblheir y contract neu wasanaeth dan sylw; cydnabyddir unrhyw daliadau a dderbynnir cyn y cyfryw berfformiad ar y fantolen fel rhwymedigaethau.

Cydnabyddir rhoddion gyda chyfyngiadau pan fodlonir yr amodau perthnasol; mewn sawl achos mae cydnabyddiaeth yn gysylltiedig yn uniongyrchol â gwariant at ddibenion penodol. Cydnabyddir rhoddion sydd i'w cadw er budd y sefydliad yn y datganiad o gyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig ac mewn gwaddolion; cydnabyddir rhoddion eraill trwy eu cynnwys fel incwm arall yn y cyfrif incwm a gwariant.

Trinnir grantiau nad ydynt yn rhai cylchol o ran caffael neu adeiladu asedau sefydlog fel grantiau cyfalaf gohiriedig. Credydir y cyfryw grantiau i grantiau cyfalaf gohiriedig a gwneir trosglwyddiad blynyddol i'r cyfrif incwm a gwariant dros fywyd economaidd defnyddiol yr ased, ar yr un gyfradd â'r tâl dibrisio ar yr ased y dyfarnwyd y grant ar ei gyfer.

Credydir incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau i'r cyfrif incwm a gwariant pan gyflenwir y nwyddau neu wasanaethau i'r cwsmeriaid allanol neu pan fodlonir telerau'r contract.

Credydir incwm gwaddolion a buddsoddi i'r cyfrif incwm a gwariant pan y'i derbynnir. Trosglwyddir incwm o waddolion cyfyngedig nad ydynt yn cael eu gwario'n unol â chyfyngiadau'r gwaddol o'r cyfrif incwm a gwariant i waddolion cyfyngedig. Cedwir unrhyw enillion neu golledion a wireddir o ddelio â'r asedau cysylltiedig o fewn y gwaddol yn y fantolen.

Bydd unrhyw gynnydd mewn gwerth sy'n deillio o ailbriso asedau trefnadaeth yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa ddibrisio wrth gefn, trwy'r datganiad o gyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig. Trosglwyddir gostyngiad mewn gwerth i'r cyfrif incwm a gwariant fel debyd, i'r graddau nad ymdrinnir ag ef gan warged ailbriso blaenorol.

Mae cynnydd neu ostyngiad mewn gwerth sy'n deillio o ailbriso neu waredu asedau gwaddol h.y. adbrisant neu ddibrisant asedau gwaddol, yn cael ei ychwanegu at, neu ei dynnu o, y cronfeydd dan sylw, a chyfrifir amdano yn y fantolen trwy ddebydu neu gredydu'r ased gwaddol, credydu neu ddebydu'r gronfa waddol, ac adrodd amdano yn y datganiad o gyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig.

### TREFNIADAU ASIANTAETH

Mae arian y mae'r Brifysgol yn ei dderbyn a'i ddostalu fel asiant talu ar ran corff ariannu wedi'i eithrio o incwm a gwariant y sefydliad lle mae'r sefydliad yn agored i risg isel iawn neu'n mwynhau budd economaidd isel iawn mewn perthynas â'r trafodyn.

### TRETHIANT

Mae'r Brifysgol yn elusen sy'n gofrestrdedig gyda'r Comisiwn Elusennau (rhif 1138342). Gan hynny, mae'r Brifysgol o bosibl wedi'i heithrio o dreth mewn perthynas ag incwm neu enillion

cyfalaf a dderbynnir o fewn categorïau yr ymddrinnir â nhw gan adran 505 ICTA 1988 neu adran 256 Deddf Trethu Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y mae'r cyfryw incwm neu enillion yn cael eu cymhwyso at ddibenion elusennol yn unig.

Nid yw'r Brifysgol yn derbyn unrhyw eithriad tebyg mewn perthynas â Threth ar Werth. Mae TAW anadferadwy ar fewnbynau wedi'i chynnwys yng nghost y cyfryw fewnbynau. Mae unrhyw TAW anadferadwy a ddyrennir i asedau sefydlog diriaethol wedi'i chynnwys yn eu cost.

### TIR AC ADEILADAU RHYDD-DDALIAD

Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliad wedi'u datgan ar gost.

Mae costau a geir mewn perthynas ag ased sefydlog diriaethol ar ôl ei brynu neu ei gynhyrchu'n wreiddiol yn cael eu cyfalafu i'r graddau y maen nhw'n cynyddu'r buddion disgwylidiedig ar gyfer y sefydliad yn y dyfodol o'r ased sefydlog diriaethol presennol y tu hwnt i'r safon berfformiad a aseswyd ar ei gyfer yn flaenorol; mae cost y cyfryw welliannau'n cael ei hychwanegu at gost gludo grynswth yr ased sefydlog diriaethol dan sylw.

### ASEDAU TREFTADAETH

Mae gweithiau celf ac arteffactau gwerthfawr eraill (asedau treftadaeth) neu grŵp o eitemau cysylltiedig, gwerth dros £25,000, wedi cael eu cyfalafu a'u cydnabod ar gost neu brisiad y caffaeliad, pan ellir dod o hyd i'r cyfryw gost neu brisiad yn rhesymol. Nid yw asedau treftadaeth yn cael eu dibrisio gan fod eu bywyd economaidd hir a gwerth gweddilliol uchel yn golygu na fyddai unrhyw ddibrisiad yn faterol.

### CYFARPAR

Mae cyfarpar sy'n costio llai na £25,000 yr eitem unigol yn cael ei ddibrisio i'r cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod caffael. Mae'r holl gyfarpar arall yn cael ei gyfalafu ar sail y gost.

Mae'r holl asedau'n cael eu dibrisio dros eu bywyd economaidd defnyddiol fel a ganlyn:

Cyfnewidfa ffôn 7 mlynedd

Holl gyfarpar arall 3 mlynedd

Pan gaffaelir cyfarpar gyda chymorth grantiau penodol, mae'n cael ei gyfalafu a'i ddibrisio yn unol â'r polisi a ddisgrifir uchod, gyda'r grant cysylltiedig yn cael ei gredydu i gyfrif grant cyfalaf gohiriedig a'i ryddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros fywyd economaidd defnyddiol disgwylidiedig y cyfarpar perthnasol.

### DIBRISANT

Nid yw tir rhydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio. Mae adeiladau rhydd-ddaliad yn cael eu dibrisio dros eu bywyd economaidd defnyddiol disgwylidiedig i'r Brifysgol o rhwng 15 a 40 mlynedd ar sail y gwerth a nodir yn y fantolen.

Mae tir ac adeiladau pryddles yn cael eu dibrisio dros fywyd y les hyd at uchafswm o 50 mlynedd. Ni chodir dibrisiant ar asedau wrth iddynt gael eu hadeiladu.

### CAFFAEL GYDA CHYMORTH GRANTIAU PENODOL

Pan gaffaelir adeiladau gyda chymorth grant penodol, maent yn cael eu cyfalafu a'u dibrisio. Mae'r grant perthnasol yn cael ei gredydu i gyfrif grantiau cyfalaf gohiriedig a'i ryddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros fywyd economaidd defnyddiol disgwylidiedig yr ased cysylltiedig ar sail sy'n gweddu i'r polisi dibrisio.

### GWAITH TRWSIO A CHYNNAL A CHADW

Mae gwariant i sicrhau bod ased sefydlog diriaethol yn cynnal ei safon berfformiad gydnabyddedig flaenorol wedi'i gydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant yn ystod y cyfnod yr aethpwyd i gostau.

### BUDDSODDIADAU

Mae buddsoddiadau wedi'u rhestru sydd wedi'u dal fel asedau gwaddol yn cael eu dangos ar werth y farchnad. Dangosir buddsoddiadau mewn is-gwmnïau ar yr isaf o'r gost neu'r gwerth net y gellir ei wireddu.

Dangosir buddsoddiadau mewn asedau, a all gynnwys buddsoddiadau rhestredig, wedi'u dangos ar yr isaf o'r gost neu'r gwerth net y gellir ei wireddu.

### STOC

Mae stoc wedi'i ddatgan ar yr isaf o'r gost a'r gwerth net y gellir ei wireddu. Pennir y gost ar sail methodoleg Cyntaf i Mewn, Cyntaf Allan. Pan fydd angen, gwneir darpariaeth ar gyfer stoc sydd wedi darfod, sy'n symud yn araf ac sy'n ddiffygiol.

### LLIFOEDD ARIAN AC ADNEUON TYMOR-BYR

Mae llifoedd arian yn cynnwys cynnydd neu ostyngiad mewn arian parod. Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, arian yn y banc, ac adneuron sy'n ad-daladwy ar gais. Mae adneuron yn ad-daladwy ar gais os ydynt ar gael o fewn 24 awr heb gosb. Nid yw unrhyw fuddsoddiadau eraill, beth bynnag eu hylifedd, wedi'u cynnwys fel arian parod.

Mae adneuron tymor-byr yn cynnwys asedau a ddelir fel storfa gwerth y gellir ei gwaredu'n hawdd. Maen nhw'n eithrio'r cyfryw asedau a ddelir fel buddsoddiadau ased gwaddol.

### ENDIDAU A MENTRAU CYSYLLTIOL AR Y CYD

Cydnabyddir cyfran incwm a gwariant y Brifysgol mewn endidau menter ar y cyd yng nghyfrif incwm a gwariant y Brifysgol yn unol â FRS 9. Yn yr un modd mae cyfran asedau a rhwymedigaethau'r Brifysgol mewn endidau cysylltiol yn cael ei chydabod ym mantolen y Brifysgol yn unol â FRS 9.

Defnyddir y dull ecwiti gros wrth gyfuno endidau cyd-fenter. Mae endidau cysylltiol yn cael eu cyfuno gan ddefnyddio endidau'r dull ecwiti'n unol â FRS 9.

### CYFRIFYDDU AR GYFER RHODDION ELUSENNOL – RHODDION ANGHYFYNGEDIG

Mae rhoddion elusennol anghyfyngedig yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon os yw'r rhodd elusennol wedi'i derbyn neu os, cyn ei derbyn, mae digon o dystiolaeth i ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol y caiff y rhodd ei derbyn ac y gellir mesur gwerth yr adnoddau sy'n dod i mewn yn ddigon dibynadwy.

### CRONFEYDD GWADDOL

Os yw rhoddion elusennol i gael eu cadw er budd y Brifysgol fel y pennir gan y rhoddwyr, cyfrifir y rhain fel gwaddolion. Mae tri phrif fath:

- Gwaddolion parhaol anghyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi pennu bod yn rhaid i'r gronfa gael ei buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.
- Gwaddolion anghyfyngedig i'w gwario – mae'r rhoddwr wedi pennu amcan penodol yn hytrach na phrynu neu adeiladu asedau sefydlog diriaethol, a gall y Brifysgol droi'r swm a roddir yn incwm.
- Gwaddolion parhaol cyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi pennu bod yn rhaid i'r gronfa gael ei buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm i'w chymhwyso i amcan penodol.

### CYFANSWM ENILLION AR FUDDSODDIADAU AR GYFER GWADDOLION PARHAOL

Cyfanswm yr elw yw'r cyfan o'r enillion yn sgil buddsoddi a dderbynnir gan y Brifysgol ar y cronfeydd gwaddol parhaol, sut bynnag y mae wedi codi.

Mae'r cyfanswm enillion, llai unrhyw ran o'r enillion a ddefnyddiwyd yn flaenorol at ddibenion y Brifysgol, yn aros yn y gronfa cyfanswm enillion heb eu defnyddio. Erys y gronfa hon yn rhan o'r gwaddol parhaol nes bod trosglwyddiad yn cael ei wneud i'r cyfrif incwm a gwariant.

### RHODDION AR GYFER ASEDAU SEFYDLOG

Dangosir rhoddion sydd i'w defnyddio yn erbyn cost ased sefydlog diriaethol ar y fantolen fel grant cyfalaf gohiriedig. Mae'r grant cyfalaf gohiriedig yn cael ei ryddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros yr un bywyd defnyddiol amcangyfrifedig a ddefnyddir i bennu'r tâl dibrisio perthnasol ar gyfer yr ased sefydlog diriaethol.

### RHODDION MEWN NWYDDAU, GAN GYNNWYS ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL A RODDIR

Caiff rhoddion mewn nwyddau eu cynnwys fel 'incwm arall' neu fel 'grantiau cyfalaf gohiriedig' fel y bo'n briodol, gan ddefnyddio amcangyfrif rhesymol o'u gwerth gros, neu'r union swm a ddeilliiodd ohonynt.

### CYFRIFYDDU AR GYFER BUDDION YMDDEOL

Mae'r Brifysgol yn cyfrannu at Gynllun Blwydd-daliadau'r Brifysgol (USS), Cynllun Pensiynau Prifysgol Abertawe (SUPS), a chynllun pensiwn y GIG. Mae'r holl gynlluniau'n gynlluniau buddion diffiniedig ond mae'r cynlluniau USS a GIG yn gynlluniau aml-gyflogwr ac nid yw'n bosibl adnabod asedau'r cynllun y gellir eu priodoli i'r Brifysgol. Yn unol â FRS17, cyfrifir y cynlluniau hyn ar sail cyfraniad diffiniedig ac mae cyfraniadau i'r cynllun wedi'u cynnwys fel gwariant yn y cyfnod y maent yn daladwy. Gall y Brifysgol adnabod ei chyfran o asedau a rhwymedigaethau o fewn SUPS ac felly mae'r brifysgol yn mabwysiadu FRS17 "Buddion Ymddeol" yn llawn ar gyfer y cynllun hwn

O 1 Ionawr 2012 caeodd y cynllun SUPS i aelodau newydd; Bellach, gwahoddir staff y rhoddwyd yr opsiwn iddynt ymuno â'r cynllun SUPS yn flaenorol i ymuno â chynllun cyfraniad diffiniedig a weithredir gan NEST (Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol). Mae'r gweithwyr a'r cyflogwyr yn cyfrannu at y Cynllun i adeiladu buddion pensiwn.

### DARPARIAETHAU A RHWYMEDIGAETHAU AMODOL

Cydnabyddir darpariaethau yn y datganiadau ariannol pan fydd gan y Brifysgol rhwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu ddeongladwy) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol, pan fydd yn debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth, a phan fydd modd gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Datgelir rhwymedigaethau amodol ar ffurf nodyn pan na fodlonir y diffiniad o ddarpariaeth, ac mae'n cynnwys tair sefyllfa: rhwymedigaeth bosibl yn hytrach na phresennol; allhif bosibl yn hytrach na thebygol o fuddion economaidd; anallu i fesur yr allhif economaidd.

### TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH

Mae trefniadau consesiwn gwasanaeth yn deillio o drefniadau lle mae darparwr gwasanaeth yn codi a/neu'n uwchraddio, gweithredu, a chynnal seilwaith a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth am gyfnod penodol. Gwneir asesiad yn dilyn Nodyn F Cais FRS5 i gynnal asesiad risg i gyrraedd casgliad priodol ynghylch a gydnabyddir yr ased a'r rhwymedigaeth gysylltiedig ar fantolen y Brifysgol ai peidio. Lle telir darparwr am ei wasanaethau am gyfnod y trefniadau, cydnabyddir y taliadau hyn fel cost yn y cyfrif incwm a gwariant wrth iddynt ddod yn ddyledus. Rheolir y trefniadau gan gontract sy'n gosod safonau perfformiad, proses am newid y prisiau, a threfniadau am drin anghydfod. Datgelir rhwymedigaethau amodol pan fydd telerau'r contract yn cynnwys rhwymedigaeth gytundebol nad yw'n bodloni diffiniad darpariaeth (gweler y polisi ar Ddarpariaethau a Rhwymedigaethau Amodol).



## DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y

flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2015

	Nodyn	2015 £000	2014 £000
<b>INCWM</b>			
Grantiau Corff Ariannu	1	21,782	28,920
Ffioedd dysgu a chontractau addysg	2	117,984	92,879
Grantiau a chontractau ymchwil	3	48,153	43,056
Incwm arall	4	40,922	40,428
Incwm o waddolion a buddsoddiadau	5	410	484
		<b>229,251</b>	<b>205,767</b>
<b>Cyfanswm incwm</b>			
Llai: cyfran trosiant cyd-fentrau	13	(580)	(562)
		<b>228,671</b>	<b>205,205</b>
<b>GWARIANT</b>			
Costau staff	6	118,560	111,811
Treuliau gweithredu eraill		79,314	73,663
Dibrisiant	11	9,597	10,915
Llog a chostau ariannol eraill	8	1,939	1,594
	9	<b>209,410</b>	<b>197,983</b>
